# Imbourc'h

## KELAOUENN A STUDI

**Testennoù kembraek**

30 Gwengolo 1986 Niverenn 201

IMBOURC'H, KELAOUENN A STUDI

**Seitekvet bloavezh**

**Niverenn 201** 30 Gwengolo 1986
6 c'hwevrer 1987


| | |
|---|---|
| Trais gwleidyddol | p.1 |
| Atodiad | p.10 |
| Nodiadau | p.11 |
| Y cenadaethau yn Llydaw | p.13 |
| Sylwadau'r Golygydd | p.38/3 |
| Cristnogion Gymru | p.39 |
| Anerchiad Pab Ioan Paul II | p.53 |
| Nodiadau a newyddion | p.59 |


oooooooooooooo


Skodenn-vloaz : 150 lur. Y. Ollivier, 1 534 25 N Roazhon. E miz genver e vez paeet ar skodenn, ha reiñ a ra ar gwir da zegemer ar gelaouenn e-pad ar bloaz ; e miz Gwengolo e vez paeet an adskodenn, ha reiñ a ra ar gwir da zegemer ur stagadenn pe ziv d'ar gelaouenn.
Priz an niverenn-mañ evit ar re n'int ket emezelet e "KENEILED IMBOURC'H" : 20 lur. E Breizh-Veur pe en Iwerzhon : £ 2.
Embannet e vez "IMBOURC'H" a-berzh ar gevredigezh "KENEILED IMBOURC'H".
Niverenn-wask : 50 015.

Ar pennadoù a zo da gas da : Y. Ollivier, 8 leurgêr ar Marchiz, 56 230 Kistreberzh.


**An niverenn-mañ a zo un niverenn ordinal.**

oooooooooooooooooo

## RAKKEMENN D'AN NIVERENN GEMBRAEK-MAÑ

Bez' ez eo an niverenn-mañ frouezh ha disoc'h un emglev hag ur c'henlabour etre "Kristenion Breizh" hag un ezel eus "**Cylch Catholig**" Kembre. Abaoe meur a vloaz ez eus darempredoù etre Katoliged eus ar vro-se ha "Kristenion Breizh", startaet ha kreñvaet gant ar beajoù a vez graet, bep hañv betek-henn, er broioù keltiek tramor gant "Kristenion Breizh" end-eeun ; tro o deus roet ar beajoù-se da zerc'hel devezhioù-studi etrekeltiek e Penarth, e-tal Caerdydd, e 1983, da skouer ; da geñver ar gejadeg-se e oa bet distaget div brezegenn a zo moulet, - adembannet e gwirionez, - en niverenn-mañ, unan e kembraeg gant J.P. Brown, "**Cristnogion Cymru**" (troet hag embannet ganin e brezhoneg e-barzh "Imbourc'h") ; hag e brezhoneg, "**Ar Misionoù e Breizh er XVIIvet kantved**", gant Maoris ar C'hollo, a zo bet lakaet e kembraeg gant hor mignon J.P. Brown, kembraeger eus an dibab ha brezhonegour ampart ; troet en deus hor mignon ivez un tamm addispleg am boa graet d'an "darlizh"-mañ, hag un toullad pennadoù embannet e brezhoneg gant "Imbourc'h" etre deroù 1984 ha dibenn 1986 (da skouer, denarc'hadenn ar Pab Yann-Bol II da Brotestanted Suiz).

Mennet e oamp, da gentañ, da skignañ an niverenn-mañ e Kembre hepken (se a vo graet, forzh penaos, dindan an talbenn "**Ymchwil**" a glot gant "**Imbourc'h**"). O prederiañ avat hon eus soñjet e c'helle an testennoù-mañ bezañ talvoudus da goumananterion "**Imbourc'h**" o-unan ivez, dre reiñ tu dezho da studiañ un tamm kembraeg, evel m'hor boa roet tro dezho da studiañ kerneveg e 1985. Moarvat o deus al lennerion endeo ar skridoù brezhonek etre o daouarn. Hogen war un dro e pourchasimp dezho un tamm yezhadur kembraek hag un tamm geriadur kembraek-brezhonek o terc'hel an termenoù a zo arveret en testennoù-mañ, hag a zo diazez ar c'hembraeg lennek. En ur ober bloaz, a gav deomp, gant un tammig pasianted, e teuint a-benn da vestroniañ ar skridoù-mañ, ha da zeskiñ war un dro ar c'hembraeg

lennek. Evel-se eo, dre lenn-dilenn ul levr kembraek, eo hon eus desket kembraeg hon-unan daou-ugent vloaz 'zo. Ret holl eo d'ar vrezhonegerion desket, ma fell dezho bezañ estreget Gallaoued a gultur o klask brezhonegañ mui pe vui, dont er-maez eus amgant sevenadurel Bro-C'hall m'emaint serret ennañ dre ar galleg evel en un toull-bac'h ; arabat eo e chomfe ar galleg evit ar vrogarourion vrezhon ar yezh nemeti a gultur a vefe en o c'herz, estreget ar brezhoneg ; ha war-bouez deskiñ yezhoù arall eo hepken e teuint a-benn d'en em zieubiñ da vat ; ha moarvat, da gentañ, dre zeskiñ yezhoù keltiek all eo e tizho an emsaverion dont er-maez eus ar c'har-c'har kulturel a zalc'h anezho e kazel-ge.

Y.O.

oooooooooooooooo



# TRAIS GWLEIDYDDOL

gan

**Youenn OLIER**

Y mae erlyniad cenedlaetholwyr ieuainc, Patrick Garin ha Denez Riou yn Llydaw yn 1984, wedi fy symbylu i ailystyried pwnc y trais gwleidyddol. Anafwyd un o'r ddau'n dost wrth geisio ymosod ar yr E.D.F. (1) yn Arzhon, yn ymyl Gwened . Nid ymddengys y cyhuddiad yn erbyn y llall yn sicr, profadwy nag argyhoeddiadol. Y mae y bachgen hwn yn mynnu yn daer nad efe a roes yn ei gar y ffrwydryddion a gafodd yr heddlu yno. 'Awn ni ddim ar ôl y pwynt, dim ond nodi nad yw hyn y tro cyntaf yr arferwyd y cyhuddiad fod ffrwydryddion wedi eu darganfod, yn wyrthiol braidd, mewn ty neu gar ; e.e. yn yr achosion yn erbyn cenedlaetholwyr ryw ddeng mlynedd yn ôl (yn enwedig, yn erbyn Yann Builhandr ha Yann Fouere cyn hynny). Ymmddyngys nad oes gant yr heddlu lawer o ddychymyg. Ond, yn rhyfedd ddigon, derbyniodd y llysoedd ffrengig y cyhuddiad yn ddifwdan. Onid cystal fyddai adfer **'lettres de cachet'** (2) ('llythyrau dan sêl') y drefn frenhinol gynt ? Byddai hynny yn onestach, o leiaf !

Bu cyfarfod agored yn Roazhon i gynorthwyo'r cenedlaetholwyr Basg. Gyrrodd llywodraeth sosialaidd Mitterand rai ohonynt yn ôl at llywodraeth sosialaidd Ysbaen, a gwaharddwyd i eraill ymsefydlu yn Llydaw. Daeth basgiaid i'r cyfarfod i amddifyn y mân-ryfel y mae milwyr ETA yn ei ymladd yn Euskadi. Ni ellais fynd yno ond clywais am yr areithiau a'r trafodaethau. Crybwyllaf un yn unig o ddadleuon y Basgiaid hyn i gyfiawnhau arfer trais (llofruddio, a siarad yn blaen), sef, eu bod yn arfer yr un dulliau â'r "Gwrthsafiad Frengig" yn ystod y rhyfel diwethaf, rhyfel-rhyddhad o'u safbwynt hwy.

Wrth gwrs, gwrthodir y gymhariaeth gant lywodraeth Ffrainc ei hun, ar sail y tamaid o ymreolaeth a roes llywodraeth Ysbaen i'r Basgiaiad. Ond sylwer fod gan y Francwyr hwythau gryn dipyn o ymreolaeth yn ystod y rhyfel, sef llywodraeth gyfreithiol Vichy, a ystyriwyd yn wladwriaeth annibynnol, a llysgennadon ganddi ymhob man.

Ond, er hynny, a ydyw dadl y Basgiaid yn ddilys ? Go brin ei fod yn gryf iawn. Nid oedd gwerth milwrol o gwbl i ymgyrchoedd y Gwrthsafiad Frengig, comwnyddol neu beidio. Prif symbyliad pob carfan yn y Gwrthsafiad oedd yr egwyddor a oedd mewn bri ymhlith y marcsaiaid yn enwedig ac a ddaeth i'r golwg mewn mudiadau cenedlaethol diweddarach, sef y dilyniant : ymosod, llethu, ymosod. Arddangoswyd y drefn hon, er enghraifft, gan brawf Burgos yn Ysbaen yn 1970, a ennillodd i "**Skol an Emsav**" yn Llydaw (3) un o'i buddugoliaethau-cyhoeddusrwydd cyntaf ac a ddiffiniodd gylch uffernol trais, y drefn lle bydd llethu unrhyw ymgyrch yn ei borthi yn y pen draw, gan beri i fwy o bobl ymuno ag ef. Gellid dweud mai dall yw pob gormes. Enghraifft eglur o weithiad yr eggwyddor hwn fu lladd Heydrich yn Siecoslovacia yn ystod y rhyfel diwethaf. Sylwer, gyda llaw, mai'r "llywodraeth fwrgais mewn alltud" yn Llundain a drefnodd hyn. Ni fu gwerth milwrol i'r weithred honno ychwaith ; ei hunig amcan fu symbylu dial y penaethiaid Almaenig ar y werin, gan sicrhau na fyddai yn y dyfodol cydweithio â'r Alamenwyr (yr oedd Heydrich ar hyn o bryd am geiso, mae'n debyg, ewyllys da'r bobl). Yn yr un cae â'r weithred frawychus (ac effeithiol, rhaid cyfaddef) honno, y mae llofruddiaeth a ddigwyddodd yn Llydaw yn ystod y rhyfel hefyd, a B.C.R.A. (4), cyfadran gwladwriaeth fwrgais arall mewn alltud, yn gyfrifol amdano, sef lladd Yann-Vari Perrot (5). Sicrhawyd drwy'r trosedd hwn i ddylanwad yr offeiriad poblogaidd hwn peidio ymysg gwerinwyr cristionol a llydaweg Gorllewin ein gwlad ; ac yn sgîl y llofruddiaeth hon y symbyliwyd y cenedlaetholwyr llydewig i 'gydweithio' â'r Almaenwyr, fel e gellid eu llethu'n haws wedi'r rhyfel.



Hawdd fyddai ychwanegu at y rhestr. Nodwn un weithred arall yn unig, y weithred yr oedd y Blaid Gomwnyddol Frengig yn gyfrifol amdani : lladd swyddog Almaenig yn Naoned, a bod yr unig ganlyniad o hyn agor ffos lawn o waed rhwng y goresgynwyr a'r boblogaeth drwy achosi cyflafan Kastellbrient.(6).

## Pwy sy'n gyfrifol am y gadwyn o drais yn Ewrob ?

Nodais y ffeithiau uchod yn bennaf i ddangos na all y Basgiaid, yn fy marn i, alw ar y Gwrthsafiad, Ffrengig neu beidio, fel safon ysbrydol i gyfiawnhau eu gweithredoedd. Yn naturiol, siaradaf fel Cristion. Nid yw moesoldeb y Marcsiaid, neu addolwyr unrhyw wladwriaeth, i fod yn safonol i'r Cristion, ac ni all Cristion eu cynghori hwythau'n dderbyniol. Ond nid oes llawer o ystyr i ddadlau simsan a ffug-bregethau dyngarol Mitterand, neu unrhyw Francwr arall, ychwaith. Bu'r Ffrancwyr (gan arfer yr enw'n wastad yn ei ystyr wleidyddol : pawb i ffiniau Ffrainc sy'n ymfalchio yn ei gallu gwleidyddol ac yn ei hanes) yn brif borthwyr trais gwleidyddol yn Gorllewin Ewrob. Hwy a "sefydliadodd" drais yn amser eu brenin Siarl VII, pan grewyd byddin barhaol, yn amser Lewis XIV, pan wnaeth ei weinidog Louvois y fyddin honno yn beiriant-rhyfel annynol yn gweini ar syniadau gwleidyddol y rheolwyr, ac yn amser eu Chwyldro Mawr, pan drefnasant gorfodaeth filwrol a wnaeth y werin yn deganau rhad i gadfridogion. Ni wadaf fod rhyfeloedd creulon a digon o ladd gan filwyr-cyflog, "condottieri" ati, cyn hynny. Ond y Ffrancwyr, ynghyd â'r Saeson a'r Ysbaenwyr, a waethygodd bethau'n arw, drwy sefydlogi trais, gan ei arfer i hyrwyddo delfrydiaeth y Wladwriaeth. Y prif ganlyniad i'r datblygiad hwn fu addoli grym y Wladwriaeth a'i godi'n uwch nag awdurdod ysbrydol yr Eglwys ac, yn wir, uwchlaw pob moesoldeb, yn enw **"Lles y Wlad"**.

Ie, gellir dweud y bu'r Francwyr, Saeson ac Ysbaenwyr yn athrawon i Ewrob i gyd yn y maes hwn, ac, yn fy marn i, y wladwriaeth ffrengig a heuodd hadau cyntaf cnwd dieflig, sef y Gwladwriaethau ffasiwn-newydd, eiddo y Prwsiaid yn gyntaf, a gafodd ei sefydlu gan Ffrederig I, ar batrwm y Wladwriaeth Ffrengig, yn enwedig parthed y Fyddin. Ac onid ffrangeg oedd iaith llys yr Almaenwr mawr hwnnw ? Math o 'Ffranwr-er-anrhydedd' oedd, tybed ? Onid Voltaire, patrwm y Ffrancwr delfrydol, oedd ei athro ? Ond, 'ta waeth, y Wladwriaeth Brwsaidd,- a aeth yn Wladwraieth Almaenig, ac yn Wladwriaeth Nazi wedyn heb newid ei natur,- fu'n athrawu'r Wladwriaeth Rwsaidd, a aeth yn Wladwriaeth Sofiet heb newid ei natur hithau, wrth gwrs. Dim ond enwau sy'n newid ; ni newidodd Marcsiaeth na sosialaeth felly natur y Wladwriaeth ; i'r gwrthwyneb, ei datblygu a wnaethant, gan ddatguddio'r ystyr a oedd ynghlwn â hi, ei gwir anian. Yn wir, y peth a'm cynhyrfodd ym mhrawf yr heddweision gorselog a laddodd y Tad Populesco yng Ngwlad Pwyl fu eglurhad un ohonynt : fod rhaid iddo amddifyn y **Wladwriaeth** (ni soniodd am Gomwnyddiaeth) yn erbyn ei gelynion.

### Dwyfoli'r grym a seilir ar drais y Wladwriaeth

Wrth gwrs, gellir anghytuno ar y modd y datblygodd y gwladwriaethau gormesol a'r ymerodraethau o draddodiadau a dylanwad y tair prif wlad orllewinol. Bu rheolwyr gormesol yn Rwsia cyn iddi gyfathrachu â'r Gorllewin. Hefyd, yn Siapan a Thwrci, datblygwyd gwladwriaethau a chanddynt nodweddion y gwledydd gorllewinol a feithrinwyd ar draddodiad yr Ymerodraeth Rufeinig. Yn union, clustnod cyffredin y gwladwriaethau milwrol ac ymerodrol hyn i gyd, fel Rhufain yn ei ddydd, yw dwyfoli Grym rywsut. Ystiriwyd Ymerawdwr Siapan, fel Ymerawdwr Rhufain, yn dduw. Penododd Gwladwriaeth Rwsia ei hun yn amddifynnwr yr Eglwys Uniongred (a wnaethpwyd eisoes yn gaethforwyn ac yn ddeiliad). Hyd yn oed yn Ffrainc, roes rhai o'r esgobion Gâlrufeinif y swydd o amddifynnwr Eglwys a Ffydd i'r brenin, a manteisiodd hwnnw arni wrth afael ar diroedd ehangach o hyd. Peth naturiol, efallai, oedd derbyn y fath warc'hodaeth gan y clerigwyr, am fod yr arweinwyr gwleidyddol yn Gristnogion, mewn enw o leiaf. Ni sylweddolasant iddynt sancteiddio felly batrwm o **"Eglwys Sefydledig"** a fyddai yn drychinebus i'r ffyd Gristnogol ac i'r Eglwys yn y dyfodol, ynghyd â'r **'Braint Ddwyfol Brenhinoedd"** a roddai oruchafiaeth i'r gallu gwleidyddol dros yr Eglwys.



Efallai y coelia rhai heddyw mai anorfod fu'r fath gyfaddawd rhwng awdurdod ysbrydol a grym gwleidyddol. Mae'r rhain yn barod o hyd i ddyfynnu adnodau mewn llythyrau Paul sy'n cymeradwyo teyrngarwch ac ufudd-dod i benaethiaid, heb ystyried a ydyw sail eu rheolaeth yn gyfreithlon. Ond ni welaf fod y fath gyfaddawd yn anochel yn Ewrob. Mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Ewrob, yn y byd Almaenig yn enwedig, tyfodd unedau gwleidyddol bychain yn y Canoloesoedd. Buasai modd cael cynghrair ohonynt i sefydlu teyrnas ddemocrataidd, marchnataol, nid milwrol, a fuasai'n llawer mwy pleidiol i gadwraeth y Ffydd ac i fudd yr Eglwys nag oedd y teyrnasoedd milwrol ac ymerodrol a seiliwyd ar deuluoedd a llinachau brenhinoedd gormesol fel Capet a Phlantagenet (dau deulu o Ffrancwyr, gyda llaw) yn Ffrainc a Lloegr. Gallasai trefi Hanseatig Gogledd Alamen neu daleithiau'r Swisdir fod yn ffynhonell math o Ewrob farchnataol. Yno y meithrinwyd gallu gwleidyddol a oedd yn effeithiol, cadarnhaol ac ymarferol. O leiaf, nid oedd rhain yn ceisio cyfiawnhad goruwchnaturiol neu grefyddol drwy ryw gymeradwyaeth gan yr Eglwys. Dyna'r rheol, yn wir, yn y Canoloesoedd cynnar, cyn ail-eni'r Wladwriaeth, yn y gwledydd celtaidd yn enwedig, lle ni sefydlwyd unrhyw wladwriaeth ganoledig a chwiliai am darddiad dwyfol, er bod cais i gyrraedd y nod honno yn Llydaw ac yn yr Alban, yn bennaf i wrthsefyll cynllu-

niau ymerodrol Ffrainc a Lloegr. Ond hyd yn oed yn y sefyllfa honno, ni cheisiodd y wladwriaeth Lydewig erioed gyfiawnhad yn chwedlau lled-grefyddol y Greal, er enghraifft.

Bu ymrafaelion cynnar rhwng gallu'r Wladwriaeth, a ddymunai bwyso ar ryw fath o ffydd cristnogol, a'r Eglwys, a ymdrechai i gadw ei hannibyniaeth, mor gynnar â'r 13eg ganrif yn Lloegr (Helynt Thomas Beckett), wedyn yn Ffrainc (Helynt y Templariaid a Phabaeth Avignon) ac yn Ysbaen (ymgais yr Ieswitiaid i sefydlu teyrnas cristnogol ym Mharaguay, er enghraifft). Nid rhyfedd felly fod y Wladwriaeth wedi gafael ar Brotestantiaeth yng Ngogledd Ewrob ac wedi gwneud yr Eglwys gatholig yn daeog yn y gwledydd a elwir 'Lladin', - taeogaeth a bery hyd heddyw, hefyd, a Gwladwriaeth ddi-Dduw yn manteisio ar Eglwys ... di-ffydd erbyn hyn. Ond yn fuan iawn, gwelodd y gwladwriaethau mai gwell oedd datblygu delfrydiaeth wladwriaethol annibynnol hefyd, yn enwedig drwy greu diwylliant gwladwriaethol sy wedi mynd yn eilun - a grewyd gan y Wladwriaeth fel y gallai addoli ei hunan ynddo.

Dechreuodd y datblygiad hwnnw yn Ffrainc yn y 17eg ganrif. Yr adeg honno, dechreuwyd ysgrifennu Hanes o ddifrif, Hanes gyda phriflythyren ; yr adeg honno hefyd, aeth y llenorion yn gaethweision i'r Wladwriaeth, megis yn amser Awst Cesar. Ond dylid pwysleisio mai hanes, sef y chwedl a alwyd Hanes, a ddaeth yn brif elfen yn y diwylliant newydd. Rhoes Hanes wisg newydd o ddwyfoldeb a chyfreithlonwrydd am y Wladwriaeth, fel y caffai ei Archoffeiriaid esgus i aberthu iddi gannoedd o filoedd a miliynau o'i phobl. Yma, fel y nododd Roparz Hemon (7) ers talm, y mae Hanes yntau yn eilun a addolir gan y Wladwriaeth er ei chlod ei hun. Ar sail y dwyfoli, codir Hanes i'r entrychion, yn enwedig gan yr Hegeliaid, a'r Marcsiaid hwythau'n ei wneud yn fynegiant o'r Diamod a ymgorfforir yn y Wladwriaeth, h.y. mewn Grym.



### Trais fel clustnod Dwyfoldeb Grym

Mae'n wir hefyd y gwnaethpwyd arfer trais yn glustnod y Gallu gwladwriaethol, a hawl y Wladwriaeth i farnu a deddfu. Rhan o'n diwylliant ydyw, frwyth ein hanes, hanes llwgr, os mynnwch, ond hanes er hynny. Felly, ni all y mudiadau-ryddhad, marcsiaid neu beidio, ymgyrchu o ddifrif ac eithrio ar sail trais, drwy beryglu bywyd eu gelynion a bywyd eu aelodau eu hunain. Am hynny, gorsyml braidd fu ateb y gweinidog Ffrengig, Badinter, pan agorwyd brawdlys newydd yn Roazhon (8), i'r cenedlaetholwyr llydewig a'i holodd am y carcharorion gwleidyddol llydewig. "Ystyriwch," meddai, a dagrau yn ei lais, "sut y gallasai'r ffrwydradau, a achosodd y bobl fyrbwyll'na, anafu neu, hyd yn oed, lladd rywun diniwed." Efallai y tybiwch fod Badinter yn ddyn twymgalon iawn wrth poeni cymaint am bywyd y "bobl diniwed". Tybed ? Y mae Badinter, fel y Ffrancwyr eraill, yn synio y gellir cyfiawnhau lladd degau o filiynau o bobl i amddifyn y Wladwriaeth ffrengig, gwarchodwr yr iaith a'r diwylliant ffrangeg, sy'n gyfystyr, yn ei farn ef, â'r Gwirionedd ; am hynny y mae arfau atomig gan y Ffrancwyr wynebgaled, er iddynt wybod na fyddant byth am arfer yr arfau hyn.

Cytunaf fod yr arfau hyn yn achos gofid i rai sy'n gyfrifol am eu tanio yn Ffrainc (os deuai gorchymyn o ran y Tywysog Mawr sy'n aros ym Mharis), - fel y dengys 'iselfryd dwys' un swyddog ffrengig yn ddiweddar, wedi iddo gael y ddyletswydd o ddysgu'r drefn-danio (9). Ond nid ydyw y rhanfwyaf o swyddogion y llu ffrengig yn petruso dim : credant yn ddiamod fod goroesiad Ffrainc (pa Ffrainc, gyda llaw, un Pascal ynteu un Voltaire ? (10) - yn hollbwysig i ddyfodol y dynolryw, er nad yw hynny mor amlwg i bawb arall. Ond, 'ta waeth am hynny, nid yw'n dilyn, yn eu tyb hwy, fod cystal hawl gan y Llydawaid neu'r Basgiaid i feddwl felly am eu gwledydd eu hunain. Ac eto, onid drwy drais y genir y gwledydd, yn ôl Charles

de Gaulle o leiaf, sy'n cyhoeddi hynny'n groch yn un o'i lyfrau, "gan Gleddyf a Thân" ?

### A all trais wasanaethu cenedlaetholwyr heddyw ?

Wedi i mi ddweud hynny, rhaid cyfaddef naf wyf innau'n ymddiried o gwbl mewn trais yn ein hymgyrch ni neu'r mudiadau-rydhad eraill yn Ewrob. Deallaf y gall trais roi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch, yn dangos fod cenedlaetholwyr o ddifrif am eu hamcanion, gan iddynt arfer rhinweddau fel disgyblaeth, dewredd ac anturiaeth, sy'n rhoi naws campau i'w gweithredoedd. Mae hyn yn wir ers 1932, pan "adawyd i'r powdr-du siarad" am y tro cyntaf yn Llydaw (mae'n ddigon amlwg na fuasai tynnu i lawr "**Cofeb y Cywilydd Cenedlaethol**"(11) gan ddau geffyl a rhaff yn cael cymaint o sylw â'i chwythu i fyny !) Yr oedd "halogiad Versailles" (12) yntau'n gyhoeddusrwydd da. Ond, heblaw rhain, tybiaf y gallasai -a dylasai - cenedlaetholwyr hebgor y rhan fwiaf o ymosodiadau'r ugain mlynedd diwethaf.

Y mae rheswm arall am beidio arferu trais : edrycha trais, mewn gwirionedd, fel pe bai yn tueddu i'r Chwith.

Ni thybiaf, wrth gwrs, y gellir disgwyl unrhyw gymorth o gwbl oddi wrth y Dde Ffrengig, sy'n mor anghristnogol â'r Chwith, gan ei bod yn dal i alw ar draddodiad y Chwyldro ffrengig (fel y gwna, gyda llaw, Le Pen ei hun ac eraill sy'n cyhoeddi eu bod yn Gristionogion yn gyntaf). Er hynny, rhaid sylweddoli fod rhan fawr o'r Llydawiaid yn coelio fod y Dde 'n amddifyn gwerthoedd cristnogol yn well, fel y dangosodd y gorymdeithio i bleidio'r ysgolion-Eglwys ym 1984. Credaf felly nad yw pleidwyr trais yn Llydaw yn gall wrth ymuno â'r Chwith Ffrengig sydd mor ffrengig â'r Dde, ond sy'n siarad dros 40% o'n pobl yn unig. Rhaid parchu'r Llydawiaid fel y maent, gan beidio â thramgwyddo unrhyw garfan ohonynt, oherwydd bod ein brwydr yn un genedlaethol yn enwedig. Dylid cofio hynny wrth cymeradwyo



bolisi. Byddai'n haws i genedlaetholwyr dderbyn hyn pe gweithreded bob amser ar faes Llydaw ei hun, yn lle ar faes gwleidyddiaeth Ffrainc yn eu hymyriad yn yr ymrafael Chwith-De, megis y mae yn digwydd ers sefydliad ur "Undeb Democrataidd Llydaw" (U.D.B.) yn 1964.

Hyd yn oed pe bai'r dyrnaid o bobl sy'n pleidio trais yn llwyddo i greu math o fyddin ddirgel, ni allwn eu cymeradwyo gan fod eu hegwyddorion marcsaidd neu led-farcsaidd yn anghydnaws â'r Ffydd gristnogol. 'Wn i ddim mewn sawl gwlad y mae pleidwyr y daliadau marcsaidd wedi cipio arweinyddiaeth y chwyldro. Ni thybiaf fod y fath berygl yn Llydaw, ond dylid rhybuddio pobl yn erbyn datblygiadau cyffelyb.

Hefyd, byddai'n hawdd iawn i fechgyn yr heddlu Ffrengig neu wasanaeth-cudd y gwledydd marcsaidd cyfoes, a'r holl foddion sy ganddynt, arfer neu symbylu bagadau o 'frawychwyr' a geisiai greu annhrefn ac 'ansefydlogi' llywodraethau rhyddfrydol y Gorllewin. Mewn gwirionedd, nid oes gennym y fath fagadau yn Llydaw ar hyn o bryd, ac ni fu erioed yn fy marn i. Ond ymholi yr ydwyf onid niweidiol i genedlaetholdeb yn y pen draw yw'r carfannau bach newydd a ddenwyd at weithredu dirgel drwy ddarllen llenyddiaeth ramantus, yn null "Breiz Atao" eto, a gyhoeddwyd yn ffrangeg ers rhai blynyddoedd (er bod yn wir i elfen ramantus ymddangos yn y Chwith farcsaidd hefyd, fel y gwelsom yn ymgyrchoedd Llydaw, yn y 70-au). Diau y mae angen meithrin brwdfrydedd a chydamcan mewn aelodau newydd ac mae'n dealladawy y denir cenedaletholwyr ieuainc i ffoi rhag argyfwng a difrawder presenol y mudiad rhyddid - h.y. dirywiad U.D.B. a mudiadau eraill, -drwy ruthro i weithredoedd o drais. Ond dylid sylwi sut y bydd trais a brawychiaeth yn creu drygioni yn mhob man, trais a ddaw weithiau oddi wrth anarchyddion ynfyd sy'n ystyried lladd dynion yn dda o'i hanfod.

Ni thybiaf felly ei fod yn bryd i genedlaetholwyr fynd yn wallgof ar yr esgus fod rhaid creu " gwladwriaeth

Lydewig" ar unwaith. Daw honno yn ei hiawn bryd. Ar hyn o byd, 'does gennym ddim mwy i'w golli ; gwyddom, er enghraifft, fod oes ein tafodieithioedd ar ben. Gwell a doethach yw seilio ein gobaith ar waith Amser sy'n difetha'n llwyrach bob dydd holl syniadaeth y Gwladwriaethau modern a gwladwriaeth Ffrainc yn enwedig. Ond nid ysgrifennaf am hynny heddyw.

Youenn OLIER

*********************

Atodiad

Ni all Ffrainc amddifyn ei hun, nid oherwydd diffyg arfau, ond am nad oes dim byd i'w amddifyn ynddi, gan nad oes unrhyw genedl na diwylliant ffrengig. Y mae gormod o wahaniaeth rhwng yr amryw ddosbarthau mewn gladwriaeth nad yw yn ei hanfod ond pentwr o fuddiannau ariannol. Hyd yn oed yng Ngaledonia Newydd, dim ond eu cyfoeth a amddifynnir gan y gwladychwyr o Ffrainc. Yn sicr iawn, nid ydynt yno i bregethu ac amddifyn y Ffydd Gristnogol. Nid yw hynny'n dweud y dylid ymddiried yn y Mudiad Annibyniaeth yno, a all syrthio i ddwylo'r comwnyddion, - ond problem arall yw hynny hefyd.

**********************



## NODIADAU

(1) **E.D.F.** : "Electricité |et gaz| de France". "Trydan |a nwy| Ffrainc."
(2) Eu hamcan oedd carcharu pobl, gelynion gwleidyddol ac ati, heb ddod â hwy o flaen y barnwyr rheolaidd.
(3) **"Skol an Emsav"** ("Ysgol yr adfywiad (neu'r mudiad)". Cymdeithas diwylliannol a sefydlwyd yn 1969, wedi rhwyg mewn cymdeithas arall "Emsav Stadel Breizh" ("Adfywiad |neu : mudiad| swyddogol Llydaw". Dechreuodd honno weithredu fel "Cymdeithas yr iaith", ond heb mynd mor bell. Digwyddodd rhwyg i mewn "Skol an Emsav" tair blynedd yn ôl ; oddi ar y rhwyg hwn sefydlwyd "Stourm ar brezhoneg" "Brwydr dros y Llydaweg" a gychwynnodd ymgyrch yr arwyddion-ffordd.
(4) B.C.R.A. ("Bureau Central de Renseignement et d'Action") ("Swyddfa Ganolig Cyfarwyddo a Gweithredu") yn gweithio o Lundain yn ystod y rhyfel.
(5) Llofruddiwyd Yann-Vari Perrot, pan oedd offeiriad-plwyf Skrignag, 12fed Rhagfyr, 1943, ac yn olygydd y cylchgrawn **"Feiz ha Breiz"** ("Ffydd a Llydaw"). Ofnai'r Ffrancwyr y troai ei ddarllenwyr gwerinol yn genedlaetholwyr. Gwrthwynebai yr offeiriad hwn gynlluniau plaid genedlaethol newydd a sefydlwyd yn mis Hydref, 1943, ar ôl rhwyg mewn y Blaid genedlaethol cyffredinol oedd yn cael ei harwain gan Remont Delaporte y pryd hwn. Cychwynnodd y blaid newydd hon filisia llydewig a drefnwyd fel rhan o'r fyddin almaenig i ymladd yn erbyn y "Résistance" ("Gwrthsafiad Ffrengig") yn Llydaw. Er bod y Tad Perrot yn gwrthwynebu amcanion y Blaid newydd, yn enwedig am fod rhai o'i haelodau yn arddel math o newydd-baganiaeth, cymhwysodd arweinwyr y filisia ei enw i ddynodi yr adran arfog yr oeddent wedi sefydlu ar ôl i'r offeiriad cael ei lofruddio.
(6) "Cyflafan Kastellbrient". Saethwyd 50 aelod o'r Blaid Gomwnyddol Ffrengig" wedi lladdiad swyddog Almaenig yn Naoned.
(7) Roparz Hemon oedd yn olygydd **"Gwalarn"** ("Gogledd-

Orllewin") o 1925 i 1944. Arweiniodd yr adfywiad diwylliannol yn ystod y rhyfel, a dedfrydwyd ef oherwydd hynny ym 1946, ond nid arhosodd yn y carchar yn hir (Gweler "**Dyddlyfr**" Youenn Olier dros 1945-46). Ymgiliodd i Ddulyn lle daliodd i weithio dros Lydaw hyd ei farwolaeth a ddigwyddodd Gorffennaf 1978. Yr oedd yn ddylanwadol iawn yn yr adfywiad cenedlaethol, yn enwedig drwy'r casgliad o ysgrifau a gyhoeddodd ym 1931 : "**Ur Breizhad oc'h adkavout Breizh**" ("**Llydawr yn ail-ddarganfod Llydaw**" y gellir ei gymharu i "**Canlyn Arthur**".

(8) Gweinidog y "Justice" gan y Llywodraeth sosialaidd ffrengig fu Badinter. Math o gaer yw'r brawdlys newydd, nid nepell o Afon Winun. Yng nghanol y ddinas y mae **Ti Breudoù Breizh** ("Ty Brawdlysoedd Llydaw"); adeilad hanesyddol lle cynhaliwyd llysoedd Llydaw yn yr hen oesoedd.

(9) Fel y gwyddys, lleolir pencadlys arfau atomig Ffrainc ar y "Plateau d'Albion".

(10) Voltaire oedd y taeraf o'r llenorion a wrthwynebodd yr Eglwys Gatholig yn y 18fed ganrif yn Ffrainc.

(11) Dangosai'r cofeb hon Anna, duges olaf Llydaw, yn penlinio wrth draed Brenin Ffrainc. Codwyd ym 1911, a dinistriwyd 7fed Awst 1932, gan y gymdeithas gudd "**Gwenn-ha-du**", ar achlysur ymweliad yr Arlywydd Ffrengig Herriot i ddathlu 500 mlynedd o uniad Llydaw â Ffrainc (ond cadwasai Llydaw ei Bradlysoedd hyd at 1789).

(12) Gosodwyd bom newn neuadd yn y plasty hwnnw, a godwyd gan y brenin Ffrengig, Lewis XIV.

**Nodiad ar yr F.L.B. ("Front de Libérationd de la Bretagne"** ("Cynghrair Rhyddhad Llydaw").

Dyma'r enw a arferwyd gan lawer grŵp-cudd a ffrwydrodd fomiau rhwng 1967 a 1984, rhai ohonynt yn genedlaetholwyr (a arferai weithiau'r priflythyrennau A.R.B., ar y patrwm I.R.A.) ac eraill o'r Chwith Llydewig. Ni chyhoeddwyd eu amcanion ffurfiol erioed ; ymddengys mai cenedlaetholwyr yw'r rhai a weithredodd yn ddiweddar.



Cyfanswm y rhai a ddaliwyd, carcharwyd a dedfrydwyd oherwydd yr ymgyrch hwn yn ystod pymtheg mlynedd yw 200 o bobl. Codwyd cannoedd o filoedd o bunnoedd i'w amddifyn yn y llys ac i gynorthwyo eu teuluoedd. Ar hyn o bryd, mae'r ymgyrch wedi peidio, oherwydd ymlediad digwyddiadau tebyg, yn enw pob math o fudiad, yn Ewrob.

Cyn hynny, lladdwyd dau o aelodau y grwpiau hyn gan eu bomiau eu hunain, ac anafwyd eraill yn ddifrifol.

**** **** **** ****

# Maoris ar C'HOLLO

Y CENADAETHAU YN LLYDAW
YN AMSER MIKAEL AN NOBLEZ
A'R TAD MANER (1608 - 1682)



Un o dTAOLENNOU Mikael an Noblez

# Y CENADAETHAU YN LLYDAW, YN AMSER MIKAEL AN NOBLEZ A'R TAD MANER (1608-1682)

gant Maoris ar C'hollo

## 1.Rhagarweiniad

Wrth ddechrau'r ysgrif hon, rhaid i mi eich rhybuddio nad wyf erioed wedi ymgymryd ag astudiaethau academaidd na chael fy hyfforddi ar eu cyfer. Felly, ofer yw disgwyl gennyf safonau'r arbenigwyr yn hanes yr Eglwys.

Dim ond loffa a wneuthum ymhlith y llyfrau awdurdodol ffrangeg ar y Cenadaethau yn Llydaw. Er hynny, teg yw dywedyd fy mod wedi hidlo'r wybodaeth hon ar gyfer fy ysgrif drwy fyfyrdod personol helaeth, gyda chymorth anhepgor y dystiolaeth gyfoes am gyfnod y Cenadaethau mawr. Gobeithiaf, felly, y bydd fy llafur o ryw werth, o leiaf pan ystyriwn gyflwr annedwydd ein Llydaw ni, wedi ei gwahanu'n fwy fwy oddi wrth ei gwir hunnaniaeth.

Enfawr yn wir yw'r newid rhwng ein byd heddyw a'r byd yr ydym am alw i gof. Ac eto nid dau fyd cwbl wahanol ydynt, ac addysgiadol iawn yw eu cymharu.

## Amgylchfyd hanesyddol cenadaethau Llydaw

### 1. Cyflwr yr Eglwys yn Ffrainc

Nid peth cwbl unigryw oedd y Cenadaethau mawr yn Llydaw. Trwy Ffrainc i gyd, o ddechrau'r 17fed ganrif, bu cenadaethau o bob math. Nid pob cenadwr a enwyd yn Ffrainc, ond ymhlith y rhai enwocaf e ceir Sant Jean-François Régis, Sant Jean Eudes (1601-80), a Sant Vincent de Paul (1581-1660).

Wrth edrych o'r tu allan, yr oedd Ffrainc i gyd yn adfywio yn yr 17fed ganrif, pan ddechreuodd y Cenadaethau. Beth bynnag y farn am effaith y rhyfeloedd cartref, tybiwyd eu bod wedi dod i ben am byth. Yr oedd arweinwyr Gwladwriaeth ac Eglwys gyda'r gilydd am ail-gatholigeiddio'r wlad ; byddai pob dyn a ddymunai gymryd rhan yn y gwaith hwnnw yn cael rhyddid a chymorth.

Ond gwyddai rhai o'r esgobion yn dda mai ail-gristioneiddio gwlad, a arosasai, yn fwy neu lai, yn deyrngar i Gatholigiaeth, oedd yr angen mawr. Yr oedd rhaid wrth fywyd newydd i'r Eglwys yn Ffrainc. O ble y deuai'r awydd amdano ? Oddi wrth Dduw, yn gyntaf, yr oedd yn rhaid iddo ddod.

## 2. Rhan Duw yng Nghenadaethau Llydaw

Efallai fy mod yn methu, ond ymddengys i mi y profwyd y gwirionedd hwn yn amlycach yn Llydaw nag ym mhob man arall. Gwaith Duw, yn anad dim, oedd y Cenadaethau mawr yn Llydaw. Duw a ddewisodd, hyfforddodd, arweiniodd ac a gynorthwyodd y cenhadon, a hynny mewn dull hollol ryfeddol. Tynnwyd y ffyddloniaid hwythau at y cenhadon mewn dull yr un mor rhyfeddol.

Cafwyd arwyddion : ganwyd Mikael an Noblez ym Mhlougernev, yn y gorllewin pell o 'Lydaw Isel', ond y Tad Maner yn St-Jord-Rentembod (1), rhwng Felger (2) a Phontorson, ar y gororau, yn yr ardal bellaf i'r dwyrain yn 'Llydaw Uchel'. Llydawr Llydaweg oedd y cyntaf, Llydawr di-lydaweg oedd yr ail felly, ond yr oedd y ddau'n gallu gweithio, ac yn llydaweg, ymhlith y Llydawiaid Llydaweg. Ceir gwahaniaethau eraill : bonheddwr o deulu cefnog fu Mikael an Noblez ; o deulu



distadl marchnatwr y daeth y Tad Maner. Offeiriad rhydd a adawodd ei urdd fu Mikael an Noblez, yn dewis ei ffordd ei hun ac yn mynd ar hyd y ffordd honno ar ei ben ei hun, tra gosodwyd y Tad Maner yn ffrâm Cymdeithas yr Iesu ym mlodau ei ddyddiau, lle bu raid iddo aros dan awdurdod drwy ei oes, ond casglodd, er hynny, digonedd o gydlafurwyr. Treuliodd Mikael an Noblez y rhan fwyaf o'i fywyd offeiriadol heb adael Douarnenez a Chonk-Leon, ond yr oedd y Tad Maner yn mynd o'r ail blwyf i'r llall yn ddidor yn ystod dwy flynedd a deugain.

Er hynny i gyd, ategodd y ddau ei gilydd yn y maes cenhadol, gan sefydlu gwaith unedig tu hwnt i'w bwriad a'u gallu. Nid oes gofod, ysywaeth, i mi ddangos sut yn union y digwyddodd hyn.

## 3. Paham Cenadaethau yn Llydaw yn yr 17fed canrif ?

### 1. Anwybodaeth grefyddol y lleygwyr.

Dechreuodd cyfnod hanesyddol y Cenadaethau yn Llydaw yn 1608, ym Montroulez, yn esgobaeth Treger, gyda Mikael an Noblez a'r Tad Kintin, a daeth i ben ym 1682, gyda chenadaeth olaf y Tad Maner yn Skrignag.

Sut groeso a gafodd syniadau'r Cenadaethau yn Llydaw ? Yn iaith y Catholigion cyfoes, prif ystyr 'cenhadaeth' oedd pregethu'r Efengyl am y tro cyntaf mewn gwledydd na wyddai ddim byd amdani, ond gellid hefyd arfer y gair am ymgyrch i adennill i'r ffydd Gatholig ardaloedd Protestannaidd, e.e. am ymgyrch Sant François de Sales yn Savoy.

A oedd rhaid wrth y fath genadaethau yn Llydaw ? Nac oedd, ond, er hynny, byddai unrhyw genhadaeth o fath newydd o anghenrhaid. Beth oedd cyflwr yr achos Cristnogol yn Llydaw ar y pryd mew gwirionedd ? Yn allanol, nid oedd pethau'n ddrwg, dim o gwbl ! Tybid fod Duw, Iesu Crist a'r Forwyn Fair yn gartrefol iawn yn Llydaw ac yr oedd Santes Anna i ymmddangos yno

ym 1624, yn ymyl Alre. Yr oedd seiliau'r Eglwys Catholig yn gadarn o hyd a gwir fugeiliaid eu preiddiau oedd eu hesgobion fel arfer. Ym mhob rhan o'r wlad yr oedd offeiriaid , bonheddwyr ha dinasyddion, difai eu ffydd a'u buchedd, ac yn elusengar. Ymhlith y gwladwyr hyd yn oed, darganfu'r Tad Maner eneidiau dethol yn nes ymlaen. Y mae'n wir na chedwyd deddf y Sul yn fanwl mewn llawer plwyf ; byddid yn gweithio neu'n dawnsio ar y sul, ond ni wnaethid hyn ond ar ôl offeren syml y bore. Aethid i'r Gosber hefyd, fel y gallodd Mikael an Noblez, pan ddaeth i Gonk-Kernev un sul, ddringo i'r pulpud wrth ddiwedd y Gosber.

Ond tu ôl i'r arwyddion allanol o fywiogrwydd, llechai'r fath ddirywiad ! Holodd y Tad Maner, yn cenhadu yng Ngorre Kernev, ryw hen werinwr : 'Sawl Duw sydd ?" "Deuddeg" oedd yr ateb. "Dim o gwbl," meddai hen wraig wedyn, "does dim ond saith !"

Yn ôl y Tad Boschet, Ieswit, bywgraffydd cyntaf y Tad Maner, yr oedd cyn lleied o wybodaeth am athrawiaethau crefyddol mewn llawer plwyf yn Llydaw Isel, fel y bu raid, wrth ddysgu'r bobl am grefydd, dechrau gyda seiliau elfennel Cristnogaeth.

Darganfu Mikael an Noblez, ar ei daith gyntaf i Gab Sizhun yn 1615, ofergoelion ac arferion drwg yn ymylu ar baganiaeth, - gormod ohonynt i'w rhestru yma. Er enghraifft, wrth weled y lleuad newydd bob mis, penliniai pobl i adrodd pader er ei hanrhydedd, er mwyn cael y tywydd iawn i'n cnydau.

Ym 1609, cafodd Mikael an Noblez groeso mawr wrth genhadu yn Ynys Eusa, ond 32 flynedd yn ddiweddarach, cafodd y Tad Maner anwybodaeth grefyddol ddifrifol yno. Anodd fu cael hyd i ddeuddeg o ynyswyr a ddysgasai'r athrawiaethau pwysicaf a'r Deg Gorchymyn yn iawn, er bod Offeiriad-plwyf a dau gurad yno, - ond yn annysgedig eu hunain oeddynt hwyhtau. Gwaith cyntaf y cenhadon fu rhoi i bobl Eusa y ddysgeidiaeth angenrheidiol.

Yn 1646, yn Sant-Turian, ar gais taer yr esgob, treuliodd y Tad Maner a'i genhadon dri diwrnod yn ofer, wrth geisio dechrau eu cenhadaeth, gan fod y plwyfolion, wedi'u cymell gan eu hoffeiriad, yn eu gwrthod yn ffyrnig, gan luchio cerrig atynt.



Yn Nouarnenez, tua 1620, cytunodd yr Offeiriad-Plwyf, y Tad Capitaine, â syniad a gynigodd Mikael an Noblez : penderfynodd fod rhaid i bawb lwyddo mewn arholiad cyn derbyn y sagrafennau. Rhaid ei fod yn gwybod yn iawn faint yr angen cyn rhoi y fath ganiatad.

Er mwyn deall diben bywyd yn iawn, rhaid i Gatholigion sylweddoli sut y gelwir pob dyn byw i berthynas barhaol â Duw. Trwy fyw felly, y mae'n sicr y bydd yn byw gyda Duw yn oes oesoedd yn y byd nesaf. Ond, er mwyn gallu byw mewn perthynas didor gyda Duw, rhaid derbyn geiriau a gorchmynion Duw a ddysgir gan yr Eglwys Gatholig. Dyletswydd offeiriaid yr Eglwys yn bennaf yw'r dysgu hwn.

**2. Cyfrifoldeb yr Offeiriaid**

Yr offeiriaid eu hunain oedd brif achos cyflwr truenus esgobaethau Llydaw Isel yr adeg honno. Nid oes dull gwell o gadarnhau'r gwirionedd hwn na gwrando ar farn dynion cyfrifol oedd yn gyfarwydd â'r sefyllfa.

Ym 1684, dwy flynedd wedi marwolaeth y Tad Maner, dyma dystiolaeth yr Esgob Koadlegen o Gemper : "Cyn y cenadaethau hyn, ychydig iawn o offeiriaid a bregethai ac a ddysgai'r catecism yn yr esgobaeth, ond yn awr y mae nifer fawr ohonynt, wedi eu hyfforddi i bregethu dan arweiniad y Tad Maner, yn gweithio felly ym mhob man, gan lafurio'n llwyddiannus i achub eneidiau..." (Cyfrol II llyfr Séjourné, t. 257).

Ysgrifennodd y Tad Le Roux, cydweithiwr y Tad Maner, nad oedd, cyn amser ei arweinydd, unrhyw oedfa bregethu yn y plwyfi cefn gwlad. Yr oedd y bobl yno'n gwbl anwybodus am athrawiaethau crefyddol ac yn bodloni fod felly, yn ôl pob golwg (Séjourné, II, t.66).

Y mae geiriau Mikael an Noblez am y sefyllfa ym

mhorthladd Konk-Leon, rhwng 1640 a 1650 yn cadarnhau hyn : "Yn y lle hwn nid oes tad-cyffeswr iawn a dim pregethwr o gwbl, ond yn ystod y Grawys." ("Eglurhad am Ddibrisio'r Byd" : gweler Séjourné I, t.95). Dysgwn o'r dystoliaeth hon felly na fu gwelliant o gwbl yn y cyfeiriad hwn yn ystod y 40 mlynedd yr oedd y Tad Mikael wedi bod ar y maes, ond gwaethygiad yn hytrach.

Mae gennym ddigon o dystoliaeth eisoes,i wneud y tro i'r ysgrif hon, am y diffig pregethu, cateceisio a gwrando cyffes, ac am yr anwybodaeth am y fydd a'r digristioneiddio, a deilliodd o'r diffygion hyn, ymhlith y bobl, ac yn enwedig, fel y cawn weld, pobl cefn gwlad.

**3. Anhawster arall : mater yr iaith**

Ond, cyn edrych ar brif achos sylfaenol dirywiad yr offeiriaid, rhaid nodi anhawster a waethygodd, yn ddigon aml, y dirywiad hwnnw. Yn yr astudiaethau diweddarach o'r cenadaethau yn Llydaw, ni bu llawer o bwyslais (os pwyslais o gwbl) ar yr anhawster hwn. Ac eto nid oes diffyg tystiolaeth gyfoes er mwyn ei amgyffred. Anwybodaeth o'r llydaweg yw'r anhawster, a'i effaith ddrwg ar yr offeiriaid plwyf yn bennaf, oherwydd ganddynt hwy yr oedd y cyfrifoldeb i addysgu eu plwyfolion yn yr Efengyl. Yn ei lyfr Ffrangeg, edrydd y Tad Séjourné hanes y Tad Maner yn ôl ei fywgraffyddion cyntaf. Nodir yno am nifer o genadaethau. "Ni all yr offeiriad wneud ei waith yn iawn, heb fedru llydaweg." Pan oedd cenadaethau'r Tad Maner ar fedr dechrau, ni allwyd rhoi iddo, fel y cydymaith a fynnai rheolau ei Gymdeithas, neb ond y Tad Bernard, Llydawr, mae'n wir, ond o Roazhon, heb lawer o lydaweg. Medrodd ei dysgu, er hynny, a chenhadodd yn ystod deuddeg mlynedd, hyd ei farwolaeth, gyda'r Tad Maner. Ond wedyn, bu yn rhaid aros heb gydymaith iawn am bedair blynedd ar ddeg, er bod arweinwyr y Gymdeithas, yn Rhufain, yn ceisio datrys y broblem yn barhaus. Dywaid y Tad Verjus (a ysgrifennodd gofiant Mikael an Noblez pedair blynedd ar ddeg wedi ei farwolaeth) yn groyw fod Mikael yn sylweddoli'r broblem ac yn ceisio ei datrys. Ychwanega sut y darbwyllodd ef y Tad de la Coste, offeiriad Ploñger, ger Konk-Leon, i ddysgu Llydaweg er mwyn gallu gwneud gwaith ei swydd yn gyflawn, a thrwy ddysgu'r iaith felly, cafodd y Tad hwnnw fudd mawr, nid yn unig yn ei blwyf, ond yn ei waith fel Archddiacon Leon, swydd a gafodd wedyn. Ceisiodd Mikael an Noblez ddarbwyllo offeiriaid eraill o bryd i'w gilydd, ond methodd yn hollol. Gellir dysgu gwersi ym maes hanes yr iaith o'r adroddiad hwn.



**4. Sychedd ysbrydol y lleygwyr**

Ond yn hanes cenadaethau Llydaw, gellir dysgu hyn : bu rhwyg rhwng nifer fawr, y mwyafrif efallai o'r offeiriaid a'r boblogaeth Lydaweg yn eu gofal. Esgus, yn ddiau, oedd y rhwyg i'r offeiriaid hynny na phoenai am eu dyletswyddau o bregethu, dysgu catecism a chlywed cyffes yn iawn : "Am na fedraf yr iaith fe'm gollyngir o'm dyletswydd." Ond am y rhai a garai, fel y dylai offeiriad, Iesu Grist a'i Eglwys, rhwystr i'w drechu oedd anwybodaeth o'r Llydaweg, beth bynnag y pris. Dyma'n union syniad a ysbrydolodd offeiriad Ploñger ac, fel yr aeth y cenadaethau yn eu blaen, nifer cynyddol o offeiriaid eraill.

**5. Gwir natur dirywiad yr offeiriaid**

Fel y gwelsom, yn ardaloedd Llydaweg Llydaw, yr oedd perygl y byddai'r bywyd Cristnogol yn dirywio'n hollol, oherwydd diffyg pregethu, cateceisio ha derbyn y sagrafennau'n deilwng. Mae'n sicr, er hynny, nad prinder offeiriaid oedd yn gyfrifol ; yn wir, yr oedd gormod ohonynt, ac ystyried yr hyn yr oeddent yn gallu, neu'n dymuno, gwneud. Deallodd Cyngor Trent yn iawn nad oedd unrhyw foddion ar gyfer argyfwng

yr Eglwys, cyn bod cyfle i addysgu offeiriaid yn iawn, ac felly y trefnwyd sefydlu'r colegau diwinyddol. Yn amser y Tad Maner yn union y cafodd Llydaw ei cholegau, Sant-Malo yn 1643 oedd y cyntaf, a Roazhon oedd yr olaf yn 1670.


Yn ystod ei astudiaethau ym Mordeaux, yr oedd Mikael wedi myfyrio'n ddwys ar ystyr yr offeiriadaeth Gristnogol. Deallodd ffynhonell diffygion yr offeiriaid cyfoes. Y mae ei lythyr at fyfyrwyr Ajen, wrth ymadael â hwy i ddechrau astudio diwinyddiaeth ym Mordeaux, yn syfrdanol, ac ystyried mai 23 blwydd oedd yn unig ydoedd. At y rhai sy'n ystyried dod yn offeiriad, ysgryfennodd am"y frwydr i fod yn dda ac yn ddysgedig, y ddau beth yn angenrheidiol i weinidog Duw, gan fod gwybodaeth ei hun yn annigonol, heb y doethineb oddi uchod... Os ydych yn ddigon ffodus i gael gwybodaeth, nid ydych i drin eneidiau nac arwain yr Eglwys, cyn i chwi ennill hefyd y doethineb oddi uchod sy'n peri i chwi ddibrisio'r Byd... Fel y gyrrir allan y clefyd gan y moddion, felly hefyd y mae'n rhaid carthu o'r enaid yr ysbryd bydol gan y doethineb nefol, gan ddirmygu pethau bas y byd, wrth afael ar y wybodaeth flasus a chariadlon a ddaw o'r Creawdwr (**Sapientia**, o **sapere** : 'cael blas ar'). Diffyg y doethineb hwn a ddaw oddi wrth Dduw a bery i gynifer o glerigwyr dysgedig beidio â chateceisio ac arwain eneidiau at ddaioni, wrth ymddwyn ymhlith pobl fydol fel dynion sy'n rhoi pris mawr ar y byd eu hunain, hyd y twyllir eu meddyliau ac y crwydrant o'r naill dentiad i'r llall, gan fyw yn annedwydd, er iddynt gredu eu bod yn wybodus !

*** *** *** ***

## Bucheddau'r Cenhadon

### 1. Mikael an Noblez (1577-1652)

Tua Gŵyl Fihangel 1577, fe anwyd, ym mhlasdy Keroudern (a yngenir 'Kiloudern' yn awr), ym Mhlougernev,



Mikael an Noblez, plentyn Herve a Frañseza Lezgwern, ill dau'n foneddigion dilys. Cawsant un ar ddeg o blant : pum mab a chwe merch. Cyfrannodd dwy ohonynt, Anna, ac yn enwedig, Marc'harid, at waith yr offeiriad eu brawd. Mikael fu'r pedwerydd plentyn, - meibion oedd y tri hynaf hefyd. Un o'r pedwar cyfreithiwr brenhinol yn esgobaeth Leon yr adeg honno oedd Herve an Noblez. Rhoes ei gyfoeth gyfle iddo dalu am addysg iawn i'w feibion.

Pan oedd Mikael yn saith oed, fe'i danfonwyd i blasdy Lezgwern, yn Sant-Fregan, lle cafodd ddau offeiriad i roi gwersi iddo, y naill ar ôl y llall. Wedyn cafodd ysgol gyda dau frawd o offeiriaid mewn capel ar lan Aber Ac'h, ar dir Plougernev. Pan oedd yn 13 oed, fe'i danfonwyd i Blouzeniel lle ymddiriedwyd ef i gurad Tremaouezan. Arhosodd yno c'hwe blynedd i astudio Lladin a Groeg.

Pwysig iawn yn ei fywyd oedd y cyfnod hwn, gan iddo gyrraedd y cydbwysedd rhwng ei berthynas â dysg a'i berthynas â Duw, cydbwysedd a wnaeth ohono batrwm o'r math o offeiriadaeth a geisiwyd gan yr Eglwys ei hun, ac a hyfforddwyd gan y colegau diwinyddol newydd. Mor ffyddlon oedd ei berthynas â Duw fel y gwelodd Iesu Grist ei hun yn dda ymddangos iddo yn ei lun dynol mewn gweledigaeth, fel y datguddiodd Mikael ei hun wrth y Tad Maner : gras syfrdanol i'w roi i lanc o'r oedran hwnnw.

Pan oedd yn 19 oed, mordwyodd i brifysgol Bordeaux, a threuliodd flwyddyn yng Ngholeg Guienne. Parhaodd ei astudiaethau am dair blynedd wedyn, yng Ngoleg yr Ieswitiaid yn Ajen. Yno, wrth astudio athroniaeth, daeth i adnabod Pêr Kintin, genedigol o Blouyann, a roes iddo gymorth yn ei genadadaethau cyntaf. Wrth derfyn ei astudiaethau yn Ajen, ymddangosodd y Forwyn Fair iddo, gan addo iddo dair coron : gwyryfdod, bod yn athro ac yn arweinydd yn y bywyd ysbrydol, a dibristod o'r byd, ac yntau'n offeiriad esgobaethol ('**saecularis**', h.y., nid mewn Urdd neu Gymdeithas). Wedi iddo orffen

ei gwrs athoniaeth, aeth ar bererindod i 'Doulouse', lle penderfynodd fod rhaid iddo fynd ymlaen tua'r offeiriadaeth.

Yn y flwyddyn 1600, dychwelodd i Fordeaux i astudio diwinyddiaeth am chwe blynedd yng Ngholeg Magdalen, a reolwyd gan yr Ieswitiaid. Yr oedd Mikael ymhlith y myfyrwyr disgleiriaf yr adeg honno, yn ôl Ronan al Loued, o Loperc'hed,esgob Kernev wedyn a chynorthwywr cyntaf y Tad Maner. Ychwanega fod Mikael yn gwybod yr holl Feibl Groeg ar y cof ! Ond nid amharodd ei astudiaethau ar ei dyfiant yn y bywyd ysbrydol. Peth pwysig iawn ar gyfer y dyfodol oedd y dosbarthau catecism a drefnodd ac a arweiniodd, gyda chymorth Pêr Kentin, ym Mordeaux a'r cyffiniau.

Diwedd y flwyddyn 1606, dychwelodd Mikael i Gerodern. Paratoi ar gyfer yr offeiriadaeth yr oedd, drwy weddi ac ympryd a thrwy fyfyrdod hefyd. Fe ddigwyddodd helynt difrifol wedyn rhyngddo a'i dad, a fynnai iddo dderbyn bywioliaeth eglwysig, gyda dyletswyddau bugeiliol cyffredin, oddi wrth yr esgob Rolland de Neufville o Leon. Gwrthododd Mikael yn bendant, gan roi fel ei brif reswm : "Ni bu gennyf erioed y gallu na'r galwad ar gyfer y fath fywyd." Fe'i gyrrwyd oddicartref gan ei dad a threuliodd chwe mis yn nhŷ ei hen nyrs, mewn math o enciliad ysbrydol. Wedyn, gofynnodd ganiatad ei dad i fynd i Baris er mwyn astudio yn y Sorbonne, ond hefyd i gael cyngor buddiol. A'r Tad Cotton, cyffeswr Harri IV, yn ei gynghori, dewisodd fywyd offeiriad diblwyf, ac fe'i ordeiniwyd ym Mharis, ym 1607, pan oedd yn 30 oed.

Dychwelodd i Lydaw a chael codi caban iddo ei hun yn Nremenac'h, yn wynebu'r eigion, i fod yn gell-feudwy, lle carcharodd ei hun am flwyddyn ymron, yn ymbaratoi o ddifrif ar gyfer math newydd o waith apostolig.

Dechreuodd yn ei filltir-sgwâr ei hun ym Mlougernev. Cododd pawb yn ei erbyn : fe'i gwaharddwyd am byth o'i gartref, ac fe'i dietifeddwyd. Llwyddodd, er hynny, i gymodi â'i rieni ystyfnig cyn mynd i Fontroulez i weld



Pêr Kintin, a oedd yn awr gyda'r **Brodyr Duon** yn y dref honno. Derbyniodd Mikael gyngor hwnnw i fod yn newyddian yn y priordy. Ond fe'i diarddelwyd cyn bo hir, am iddo ymollwng i ddicter a thorri'n yfflon lun merch a grogai uwch ei bedd yn eglwys y priordy.

Aeth Mikael yn ôl i Gêrodern a siarad â'i chwaer, Anna : rhoes iddi reol bywyd a threfnodd iddi fyw ym mhentref Plougernev. Dechreuodd gynghori ei chwaer Marc'harid hefyd yn ei bywyd ysbrydol, a chafodd ei chymorth yn ei waith. Yn wir, cynghorydd-enaid call iawn oedd Mikael an Noblez. Prynodd fwthyn iddo ei hun yn Lokrist, cyn mynd i Fontroulez eto gan gymryd ei chwaer, Marc'harid, gydag ef. Gyda chaniatad Esgob Treger a chymorth y Tad Kintin, dechreuodd cenhadu yn ei ddull ei hun, ym Montroulez a'r cyffiniau. Ceisiodd droedigaeth gwraig, Frañseza Gizidig, merch bonheddwr o Fro Dreger, ac, yn wir, daeth y wraig fydol iawn hon i fyw bywyd lleian yn ei chartref ei hun, gan roi cymorth diymhongar i'w waith cenhadol. Yn 1611, gadawodd Mikael Fontroulez am byth, ond nid cyn cenhadu yn Eusa a Molenez.

O Fontroulez, aeth i Ynys Faz. Oddiyno y daeth i ymgartrefu yn Lokrist, a dechreuodd weithio yng Nghonk-Leon, un o borthladdoedd mwyaf Llydaw ar y pryd. Gwahoddodd i'w chwaer ddod o Fontroulez i fyw'n agos i'w dy eto. Cyn bo hir, cododd pawb yn ei erbyn, hyd y tynnwyd ef allan o'r pulpud gan un o'r curadau, ar gais yr offeiriad plwyf, tra oedd ymrafael amdano'n mynd ymlaen yng nghorff yr eglwys !

Yr oedd Dirprwy'r Esgob ar fedr cymryd oddi wrtho bob caniatad i weithio pan gafodd lythyr yn cynnwys y geiriau hyn : "Gwyddoch, Syr, gyflwr y rhan bellaf 'ma o Ewrob, oherwydd newyn ysbrydol, sef diffyg y bara sydd yn Air Duw. Ni chred y rhan fwyaf o'r Offeiriaid Plwyf fod dasrannu'r bara hwn ar restr eu dyletswyddau, a chwyd pregethwyr yn eu pulpudau a neb o'r gwrandawyr yn deall dim o'u pregethau. Mae'n well ganddynt ddweud dim byd buddiol wrth ein pobl, rhag iddynt ddweud,

wrth ddysgu, unrhyw beth a'u tramgwyddai. Gan eu bod yn barnu llwyddiant eu crefydd yn ôl arian eu blychau-casglu, meithrinant ddrygau na allant eu hosgoi heb gwtogi ychydig y tipyn o wobr fydol a ddisgwyliant am eu gwaith. Felly y mae cryn nifer o eneidiau'n mynd ar goll, oherwydd diffyg pobl alluog a diduedd a fyddai'n eu dysgu a'u hysbrydoli, ac, yn enwedig, yn rhoi iddynt y cyfle i gael cyffeswyr a allai ddatguddio iddynt, yn gwbl gyfrinachol, gyflwr eu cydwybod. Ond mae'r diawl, a chywilydd a thrallod yr offeiriaid hyn, yn peri cau cegau..."

Newidiodd Dirprwy'r Esgob ei feddwl. Yn raddol, enillodd Mikael ychydig o dir. Gyda chymorth gweddw o'r enw Frañseza Troadeg, a fedrai lunio mapiau*, paratodd ei "**daolennoù**" ("taflenni") cyntaf (gweler isod). Er hyn i gyd, ni chafodd lwyddiant yng Nghonk-Leon. Fe aeth i bregethu yn Landernev, yn 1613, ac yno y defnyddiodd y "**taolennoù**" am y tro cyntaf. Ond, er iddo gael cymorth y Tad Kintin eto, ni chafodd unrhyw lwyddiant.

Wedyn cafodd ganiatad i genhadu yng Nghernev.

### Mikael yng Nghernev

Cafodd lety yng Nghernev, lle dechreuodd bregethu ac yn enwedig i ddysgu catecism. Galwodd ei chwaer Marc'harid o Lok Maze, a Frañseza Troadeg i ofalu y merched. Ond nid oedodd y rhan fwyaf o'r plwyf cyn ei wrthwynebu a'i alw'r "**offeiriad gwallgof**" ! Wedi ei fwrw allan o'i lety, fe brynodd ty. Er hynny, enillodd ychydig o bobl, ac yn enwedig offeiriad duwiol a gymerodd fel cyffeswr. Ei genhadaeth gyntaf yng Nghernev oedd yn y Faou, yn 1615. Tra oedd yno, bu raid iddo fynd i Gerodern i wely angau ei vam (yr oedd ei dad wedi marw dair blynedd gynt). Ail-ddechreuodd ei waith yng Nghonk-Kernev, ac yno yr oedd ei fethiant yn amlwg.

Fe aeth i Bont-an-Abad, ac yma bu gwrandawiad



gwell. Wedi iddo fynd drwy Ynys Tudi, aeth i Waien. Cyn gynted ac y dringodd i'r pulpud, wrth derfyn yr offeren, aeth y gwŷr i gyd allan, ychydig o wragedd yn unig yn aros i wrando arno. Fe glwyfwyd ef yn ddwfn gan hynny, yn ei ysbryd ac yn ei iechyd.

Ymlaen yr aeth at werinwyr y "Kab-Sizhun", yn ymyl Gwaien, ac i Ynys Sizhun wedyn.

Heb i ni wybod pam, derbyniodd Mikael fywioliaeth Melar, plwyf dethol ar y pryd. Ni allodd aros yno'n hir, a chyrhaeddodd Bloare, 22ain Chwefror 1617, a chael derbyniad da gan yr Offeiriad Plwyf, y Tad Capitaine. Arhosodd yno ryw flynedd ar ugain, a'i ganolfan ym mhorthladd Douarnenez.

Er iddo gwrdd â gelyniaeth i ddechrau, llwyddodd i ennill rhai pobl. Darbwyllodd yr offeiriad plwyf, hyd yn oed, i orfodi i'r holl blwyfolion gael arholiad cyn cyffesu, cymuno neu briodi. Dysgodd y bobl ar gyfer yr arholiad, gyda chymorth ei chwaer Marc'harid a ddaethai i Ddouarnenez erbyn 1619. Gweddill ei waith offeiriadol oedd pregethu, cateceisio, hyfforddi'r merched i egluro'r **taolennoù**, a rhoi cyngor ysbrydol.

Dechreuodd cyfoethogion y plwyf achos yn ei erbyn yn llys esgobol Kernev, ond yn ofer, a'r Offeiriad-Plwyf yn dal o'i blaid. Ond ym 1625, fe aeth pethau'n wir chwerw rhwng y ddau offeiriad, hyd y gwnaethpwyd cwyn am Fikael, am ei fod yn defnyddio merched i ddysgu'r catecism, ac i egluro taolennoù. Unwaith eto, pleidiodd y barnwr, sef Dirprwy'r Esgob, ochr Mikael, gan gymodi'r Offeiriad-Plwyf ag ef.

Ym 1631, bu gwir ryfel rhyngddynt, hyd y gwelodd Mikael yn dda gilio am adeg i Boulldahud. Ni wyddys faint o amser yr oedd yno neu ba bryd y daeth heddwch, ond ym 1634 yr oedd yr Ofeiriad-Plwyf o blaid rhoi beddrod i Fikael yn eglwys Ploare, fel arwydd diolchgarwch.

Ym 1639, gadawodd yr Offeiriad ei blwyf gyda Herri Gwegennoù, ei nai. Cydweithiodd y ddau i gael Dirprwy'r Esgob i yrru Mikael o'r esgobaeth, gan ysgrifennu ato :

"Syr, drwy eich holl oes, yr ydych wedi pregethu sancteiddrwydd wrth eraill ; dilynwch ef eich hun yn awr : dychwelwch i'ch esgobaeth enedigol a pheidiwch â dychwelyd fyth i esgobaeth Kernev ! "

**Mikael yn Nghonk-Leon yn ôl**

Pan oedd yn 68, mordwyodd Mikael i Gonk-Leon, lle treuliodd weddill ei oes.

Yn gyntaf, gallai ddal i deithio, ond, cyn bo hir, bu raid iddo aros gartref, a chroesawu pawb a ddaeth i'w weld. Ymwelodd offeiriaid a'i dŷ bychan, ond daeth merch hefyd, a gydweithiai yn y cateceisio ac esbonio **taolennoù**, sef Jan ar Gall, o Lokronan-Leon, 21 oed, a gwaith fferm ei hunig fedr. Gyda llawer o anhawster, a thrwy ei danfon am hyfforddiant yn Nouarnenez, llwyddodd wneud catecist ohoni, a'i gallu'n syfrdanu Dirprwy'r Esgob, ei harholwr.


Tra oedd yn byw yng Nghonk-Leon, ym 1640, croesawodd Mikael y Tad Maner wrth ddechreuad ei lafur, a chroesawyd ef lawer gwaith wedyn i dŷ ei gyfaill. A chroesawodd Mikael lawer o bobl eraill, yn cynnwys morwyr.

Diwedd Medi 1651, cafodd drawiad a pharlys yn dilyn ac, am saith mis, bu fel plentyn bach, yn cyfranogi felly, fel y dymunasai, o blentyndod ein Gwaredwr. Cyfranogodd hefyd o'i Ddioddefaint, drwy gael ei gamdrin yn ddidrugaredd gan y diafol. Cafodd ddau drawiad eraill, a bu farw, a'r Tad Maner yn bresennol, 5ed Mai, 1654, yn bymtheg a thrigain oed. Yn eglwys Lokrist yr oedd ei fedd yn gyntaf, ond pan symudwyd yr adeilad i Gonk-Leon, daeth y bedd hefyd ar ôl yr Eglwys.

**2. Y bendigaid Julian MANER 1606 - 1683**

**Ar y ffordd i'r offeiriadaeth**

Blwyddyn cyn ordeiniad Mikael an Noblez y ganwyd



**Y Tad Juluan Maner, wedi e ddarlunio gan H. Dikelou**

Julian Maner, 1af Hydref 1606, a bod yn gywir, yn Sant-Jord-Rentembod, yn esgobaeth Roazhon, am y ffin â Normandi. Marchnatwr bach oedd ei dad, Isaac ; Gabrielle Deloris oedd enw ei fam. Pobl fyddlon oedd y ddau, a addunedodd eu mab i'r Eglwys, cyn gynted ag y'i bedyddwyd.

Un o offeiriaid ei blwyf a roes iddo ei wersi lladin cyntaf. Pan oedd yn 15 oed, fe'i danfonwyd i Goleg yr Ieswitiaid yn Roazhon. Newyddian-Ieswit yn Saint-Germain, ym Mharis, oedd, ac yntau 19 oed. Dwy flynedd wedyn, fe ddechreuodd astudio athroniaeth yn La Flèche.

Ym 1630, fe'i danfonwyd, fel athro, i Gemper, lle'r oedd yr Ieswitiaid wedi ymsefydlu ddeng mlynedd gynt. Yno y daeth i adnabod yr offeiriad Llydaweg, Gwilherm Thomas, a'r Tad Bernard, o Roazhon, un flwyddyn ar ugain yn hŷn nag ef. Yr oedd y Tad Bernard yn ymwybodol o drallod crefyddol ei wlad, yn ceisio dylanwadu ar Julian, gan ei gymell i ddysgu Llydaweg, - ond cenhadu yng Nghanada oedd bwriad Julian.

Yr un flwyddyn, aeth Mikael an Noblez, wedi'i ysbrydoli oddi uchod, o Ddouarnenez i Gemper, i weld Julian Maner, ond dychwelodd heb ddweud unrhyw beth am gynllun Duw. Ychydig o ddyddiau wedyn, wrth fynd i capel "Ti Mamm Doue" ("Tŷ Mam Duw") ym mhlwyf Kuzon (Kerfeunteun yn awr), yn ymyl Kemper, dechreuodd Julian Maner ystyried cyflwr yr Eglwys yn Llydaw, a'r dymuniad a'r gobaith o ddysgu Llydaweg yn gafael arno. Wedi iddo gyrraedd y capel, gweddiodd ar y Forwyn Fair i ddysgu'r iaith iddo.

Ond ni chafodd ganiatad i'w dysgu ar unwaith. Chwe mis wedyn, o drugaredd Duw, daeth y caniatad oddi wrth y Tad Taleithiol, ar y Sulgwyn yn union, - ac y dydd mawrth canlynol, fe ddysgodd y catecism llydaweg i'r bobl, a dechreuodd bregethu chwe wythnos diweddarach, ac yn ôl ei dystiolaeth ei hun, heb ysgrifennu'r bregeth ymlaen law.

Oherwydd iechyd, fe'i danfonwyd i dTours, ym 1633. Dysgodd y catecism i'r bobl yno, ac adferwyd ei iechyd.

Ym 1634, fe'i danfonwyd i fBourges, i astudio diwinyddiaeth. Yn ystod ei astudiaethau, cafodd yr awydd, yn gryfach nag o'r blaen, i fynd i Ganada. Ym 1636, a chlefyd marwol arno, daeth i'w fryd yn sydyn i ymofyn iachad, gan addunedu, pe'i caffai, cysegru gweddill ei oes i achub Llydaw. Cafodd iachad buan. Ordeiniwyd ef Sul y Drindod, 6ed Mehefin, 1637.

Dadl y cenadaethau

Y flwyddyn nesaf, fe ddanfonwyd y Tad Maner i Nevers, ac nid i Lydaw.

O'r holl rwystrau i'r cenadaethau yn Llydaw, dau oedd yn bwysicaf. Y gwaethaf oedd gelyniaeth Esgob Leon (1614-40), Gwilherm ar Beleg, o Lezoned. "Pam mae raid wrth genadaethau yn fy esgobaeth ?" meddai. "'Does dim Huguenot yma !" Cyhoeddodd datganiad yn erbyn y cenadaethau hyd yn oed. Yr ail anhawster oedd cael cydymaith, fel y mynnodd rheolau Cymdeithas yr Iesu, i'r Tad Maner. Nid oedd y Tad Bernard, yn 53 oed, ac yn ddi-lydaweg, yn addas i'r swydd hon.

Ym 1639, fe aeth y Tad Maner i Rouen i orffen ei addysg offeiriadol. Ond, cyn hynny, cafodd ganiatad o Rufain, oddi wrth Bennaeth y Gymdeithas, i gyflawni'r adduned a wnaeth ym mBourges.

Ym 1640, fe ddaeth i Gemper, lle cafodd elyniaeth yr Esgob. Galwodd Mikael an Noblez, a giliasai i Gonk-Leon, y Tad Maner ato. Wedi iddo deithio am ddiwrnod, daeth newyddion am farwolaeth Esgob Kemper.

Cyffrous fu'r cyfarfod rhwng yr hen cenhadwr a'r un ieuanc. Dechreuodd y Tad Maner ei waith yng Nghonk--Leon, gerllaw Mikael an Noblez, er gwaethaf yr anawsterau. Cytunodd y Tad Bernard, a chafodd ganiatad Pennaeth yr Urdd. Yr un pryd, ceisiodd yr Ardalydd Rozmadeg, llywodraethwr Kemper, gymorth y Cardinal Richelieu, a thalodd hwnnw dreuliau'r pedair cenhadaeth gyntaf. Tra oedd y Tad Bernard yn gweithio'n galed i ddysgu Llydaweg, penodwyd Ronan al Loued, Prif



Gantor eglwys esgobol Kastell, yn Esgob Kemper. Gan iddo fynd i ysgol Ieswitaidd ac astudio gyda Mikael an Noblez ym Mordeaux, yr oedd yn awyddus iawn i gael cymorth y cenadaethau.

**3. Braslun o genadaethau'r Tad MANER**

Dwy flynedd a deugain a roddwyd i'r cenadaethau gan y Tad Maner hyd at ei farw, ac yn Nouarnenez y dechreuodd.

Gellir cyfrif rhwng 325 a 375 o genadaethau (anghyflawn yw'r coflyfrau), - deuparth ohonynt, 300, ymron, yn esgobaeth Kernev (18 i Ddouarnenez ei hun). O'r esgobaethau eraill, cafodd y Tad Maner groeso yn amlaf yn Leon (26 chenadaeth), a Threger (26), wedyn Gwened (14), Roazhon (14), Sant-Brieg (12), a Dol (7). Nid aeth i Sant-Malo na Naoned (yn ôl Séjourné).

Nodir yma y digwyddiadau pwysicaf o'r cyfnod hwn.

**1641.** Cafodd y Tad Maner ganiatad i genhadu yn esgobaeth Leon. Daeth i adnabod Katell Daniellou o Gemper, a oedd yn byw bywyd edifeirwch ac yn llawn o ewyllys da. Cafodd hyd ar Ynys Sizhun i forwr a fyddai'r Offeiriad-Plwyf i'r ynys wedyn : Frañsez ar Su, disgybl Mikael an Noblez.

**1643.** Daeth y Tad Maner i adnabod Mari-Amis Picard, o Wiklann, yn byw yn yr un dull â Chatell Daniellou, yng Nghastell-Pol.

**1644.** Yn ystod Cenhadaeth Irvilhag, cyfarfu'r Tad Maner â bugail 20 oed a ddenwyd gan y diafol i gysegru ei hunan iddo.

**1646.** Aeth y Tad Maner i ben bellaf Esgobaeth Kernev tua'r dwyrain, i ardal Mur. Ceisiodd yn ofer am dri diwrnod i ddechrau cenhadaeth yn Sant-Turian.

**1649.** Ceisiodd Offeiriad-Plwyf Botoa roi terfyn ar y cenhadaethau, drwy godi amheuon amdanynt yn y "Sorbonne". Wedi iddo fethu, gwysiodd Esgob Kernev i Senedd Llydaw, ond chwarddodd yr aelodau am ben

yr offeiriad ystyfnig.

Diwedd 1649, yn Sant-Gwen, treflan ym mhlwyf Mur, fe ddarganfu'r Tad Maner addoliad o'r Diafol, dan yr enw 'Drwg y Mynydd'. Oherwydd ei ddulliau o ymladd â'r drygioni hwn, fe ddechreuodd helynt na ddaeth i ben yn derfynol cyn 1658, pan benderfynwyd fod y Tad Maner yn gwbl iawn.

**1651.** Yng nghapel Sant Elouan, ym mhlwyf Mur, sefydlodd y Tad Maner gynghrair o offeiriaid cenhadol, a'r Tad Galern, Offeiriad-Plwyf Mur, yn un o'r rhai cyntaf. Cyn bo hir, yr oedd yn y cynghrair hwn 300 o aelodau, a mil yn ddiweddarach, - un ym mhob deg o'r offeiriaid cyfoes. Dyma lwyddiant pwysicaf oll y Cenadaethau.

**1652.** Bu farw Mikael an Noblez.

**1654.** Bu farw'r Tad Bernard.

**1655.** Troedigaeth y bonheddwr Trevaria, o'r Kab-Sizhun.

**1656.** Ordeiniwyd Trevaria, i gymryd rhan yng ngwaith y Cenadaethau.

**1657.** Defod newydd. Fe ddyfeisiodd y Tad Maner "Llaswyr bychan y Forwyn", sef y Credo, y Pader deirgwaith, a'r 'Henffych Well Fair' ddeudengwaith, i gofio deuddeg braint y Forwyn.

**1658.** Derbynwyd dull y Tad Maner o drin addolwyr-diafol yn y gyffesgell gan bwyllgor ym Mharis, a chaniatawyd y dull gan Esgob Treger.

**1659.** Cynigiodd y Tad Anton Poncet o Baris gymorth i'r Tad Maner, ac aeth ati i ddysgu Llydaweg.

**1660.** Aeth y Tad Poncet yn ôl i Amerig. Cymerodd y Tad Roparzh Jacquesson ei le, wedi iddo ddysgu tipyn o Lydaweg.

**1663.** Codwyd capel i Fihangel yn Nouarnenez, ar dir tŷ Mikael an Noblez.

**1667.** Am y tro cyntaf, cynhwysodd y Tad Maner adnewyddu addewidion bedydd yn ei genadaethau. Dechreuodd hefyd yr arfer o ddefod i ymbaratoi am y Cymun.



**1668.** Bu farw'r Esgob Al Loued o Gernev, a'r Esgob Koadlogon yn olynu. Penodiad y Tad Visant Martin, Llydawr Llydaweg, 40 oed, yn gydymaith i'r Tad Maner.

**1670.** Yn dilyn cyngor y Tad Maner, sefydlwyd Tŷ Enciliad, yn agored i bawb, yng Nghemper.

**1675.** Ymddangosiad y Forwyn, a Mikael an Noblez gyda hi, i'r Tad Maner yng nghapel Mair y Cysurydd.

Gwrthryfeloedd y '**Capanau Coch**" (Treger) a'r '**Capanau Glas**" (Kernev) yn erbyn y trethi anghyfiawn a gyhoeddwyd o Baris. Aeth y Tad Maner i ganlyn y Dug Chaulnes a'i filwyr drwy esgobaethau Kernev a Threger, gan wneud ei waith offeiriadol ymhlith y gwrthryfelwyr.

**1676.** Troedigaeth y bonheddwr Kêrizag. Trodd yr Ardalydd Pontkalleg hefyd ei gefn ar y byd.

**1677.** Wedi eu hordeinio, mae'r ddau fonheddwr yn cymryd rhan yng ngwaith y cenadaethau.

Cynhwysa'r Tad Maner enciliadau yn fframwaith ei genadaethau.

**1678.** Yng nghenadaeth Lambal, daeth y Tad Lendu-ger, a sefydlodd 'Ferched yr Ysbryd Glân" wedyn, ac a ddaeth yn Offeiriad-Plwyf Plouwinaz, i gynorthwyo'r Tad Maner.

Bu farw'r Tad Kêrizag, ac Esgob Grangier, o Dreger.

**1682.** Dwy genhadaeth olaf y Tad Maner : Plounevezel a Skrignag. Ni allodd orffen yr ail. Ym Mhlougernevel e pregethodd a chateceisiodd am y tro olaf.

**1683.** Gorweddai'r Tad Maner yn glaf iawn yn Nhŷ-Offeiriad Plevin. Bu farw yno 28ain Ionawr (300 mlynedd yn ôl).

Llwyddiant olaf y Tad Maner : wedi'i ysbrydoli ganddo, fe ddechreuodd y Tad de Dumaine, a roasai'r Sagrafennau Olaf iddo, astudio'r Llydaweg, gan ddod yn gydymaith wedyn, hyd ei farwolaeth ym 1691, i'r Tad V. Martin.

Cymerwyd calon y Tad Maner i Gemper, lle cadwyd yng Ngholeg yr Ieswitiaid. Ond ni allwyd cael plwyfolion Plevin a'u cymdogion i ildio ei gorff i Esgob Kemper, a benderfynasai ei gladdu yn ei eglwys cadeiriol, a

chadwyd corff y cenhadwr mawr yn eu plith.

**4. Dulliau gwaith cenhadol y Tad MANER**

Nid oes modd o gwbl inni wahaniaethu syniadau'r Tad Maner ei hun ar gyfer ei waith cenhadol a syniadau a gafodd oddi wrth Fikael an Noblez ac eraill. Daeth llawer o'r syniadau sylfaenol oddi wrth Fikael an Noblez yn ddiamau.

Yr hyn sy'n sicr yw dylanwad y cenadaethau, yn y naill genhedlaeth a'r llall ar y mwyafrif o'r lleygwyr a rhan o'r offeiriaid. Tynnwyd yr esgobion eu hunain i mewn i'r mudiad ; o'u bodd, rhaid dywedyd.

**1. Y gwaith ar gyfer y lleygwyr :**
**credu a byw ar sail credu**

Trown ein sylw at y lleygwyr yn gyntaf. Un math o bobl, sef gwerinwyr Llydaweg oedd y mwyafrif a aeth i'r gwasanaethau cenhadol.

Dysgwyd iddynt, nid yn unig athrawiaethau'r Ffydd ond, yn fwy fyth, sut i fyw yn ôl y ffydd. Nid oedd y ffydd wedi marw yn eu gwlad ; ynteu, ni allasai'r cenadaethau dynnu, fel y gwnaethant, pobl yn eu miloedd, yn aml o bell. Ond ni allai ddatblygu, blodeuo, dwyn ffrwyth.

/1. **Credu.**

Dengys gweithgareddau'r genhadaeth (a barhai am fis gan amlaf) sut y dysgid y bobl am eu ffydd, sef y "seiadau" ("koñferañsoù"), y cateceisio, y pregethau, y "**taolennoù**", yr emynau "ysbrydol", a'r orymdaith fawr.

A. Y "seiadau".

Dechreuai diwrnod y Genhadaeth â gweddi'r bore am bedwar o'r gloch, ac un o'r cenhadon yn arwain, a pharatoi'r bobl hefyd i wrando'r offeren a offrymai'r Tad Maner. Wedi'r offeren, esbonid ei thestun gan y cenhadwr, a'r Tad Maner wedyn yn mynd i'r pulpud ar



gyfer y "seiad" : holi ac ateb gan y naill a'r llall hyd y gallai'r Tad wybod pa fath o bobl oedd yno, a'i wrandawyr yn derbyn eisoes lawer o oleuni am faterion a oedd yn aneglur iddynt gynt.

**B.** Y cateceisio.

Yn yr eglwys y gwnaethpwyd y cateceisio, rhwng cinio-canoldydd a dau o'r gloch. Dechreuai y Tad Maner, neu un o'r cenhadon mwyaf galluog, e.e. y Tad Trevaria neu'r Tad Kêrizag, gyda'r athrawiaethau sylfaenol, fel pe na wyddai'r bobl ddim o gwbl am y Ffydd. Catecist, yn anad dim, oedd Mikael an Noblez, ac, o'r flwyddyn 1625 hyd yn oed, yr oedd wedi rhoi'r gorau i bregethu (er gwaethaf ei allu). Fe ysgrifennodd ei resymau am wneud hyn, - ond mae'r ysgrif ar goll ysywaeth. Er hynny, nid anodd yw dyfalu dau ohonynt. Yn gyntaf, i bobl ddi-addysg, neu ddi-addysg ymron, y mae'n rhaid cynnig pethau syml er mwyn gwneud argraff ar eu meddyliau. Yn aml, er mwyn trwytho meddyliau pobl o gefndiroedd gwahanol mewn pethau newydd, fel y bydd y pethau hyn yn dir cyffredin iddynt, rhaid dilyn dulliau ysgol. Heb y gwaith elfennol hwn, ni allai'r pregethau gorau wneud dim ond mynd dros bennau'r bobl, gan ogleisio eu clustau wrth fynd heibio, neu godi eu gwrychyn, neu eu rhoi i gysgu.

**CH.** Y pregethau.

Er hynny, rhaid bywiogi'r cateceisio, cyn y gellir trefnu bywyd ar sail y Ffydd. Dyna amcan pregethu. Byddai pregeth huawdl am 10 o'r gloch y bore ac, wedyn, am 4 o'r gloch yn y gaeaf, a 5 o'r gloch yn yr haf ; byddai pregeth arall ar y gwirioneddau mawr (fel y'u gelwid hyd yn ddiweddar) : angau, barn, nefoedd, uffern. Yn ystod yr orymdaith fawr, byddai pregeth arall, gan y Tad Maner, ar Ddioddefaint Crist.

**D.** Y "Taolennoù".

Rhoddai'r "Taolennoù" hwythau, a'r drafodaeth am eu cynnwys a ddilynai, fwy o oleuni am y Ffydd i'r bobl.

**E.** Yr emynau "ydbrydol".

Ond y dull a roes hwb mawr, nid yn unig i ddysgu'r Ffydd ond hefyd i feithrin Gobaith a Chariad, gan gynorthwyo'r cof a diddori'r clust, oedd y defnyddio helaeth o'r emynau "ysbrydol".

Fe argraffwyd casgliad o'r emynau hyn am y tro cyntaf ym 1641, ac erbyn tua 1672, cafwyd 30 argraffiad, yn dwyn y teitl : "Emynau ysbrydol a hyfforddiant buddiol i ddysgu'r ffordd i fynd i'r nefoedd".

Cynhwysir yn yr emynau hyn y pethau pwysicaf yn y ddysgeidiaeth Gristnogol, a gallant fod yn werthfawr fel deunydd gweddi. Fe'u canwyd yng ngwasanethau'r Genhadaeth, ac, wedyn, gan y bobl ym mhedwar ban y wlad. Y cenhadon eu hunain a'u dysgodd i'r bobl. Yn y bore, wedi'r seiad, tra oedd rhai yn y gyffesgell, fe âi y llall allan o'r eglwys i ddysgu'r emynau. Rhoddwyd eglurhad byr o ystyr pennill wrth ei ddysgu. Medd y Tad Kerbiriou, sy wedi rhoi i ni damaid o'r emynau 'ysbrydol' yn ffrangeg : "Fe chwytha awel o ffydd nerthol drwy'r emynau. Teimlir berw apostolig eu awdur. Wrth wrando (a chanu), byddai'r ffyddloniaid yn gwylio'r ornest rhwng bywyd ac angau."

Er iddynt fod yn boblogaidd yn anad dim, nid yw'r emynau 'ysbrydol' heb eu gwerth llenyddol. Cawsant lwyddiant am amser hir.

F. <u>Yr orymdaith fawr.</u>

Terfyn pob cenhadaeth oedd gorymdaith fawr, a'r genhadaeth i gyd megis paratoad ar ei chyfer. Math o ddrama gysegredig ar gerdded oedd yr orymdaith, a'i golygfeydd wedi'u hactio gan bobl a esboniai weithredoedd mawr ein gwaaredigaeth yn ôl yr Ysgrythurau. Yn y blaen, er enghraifft, oedd pobl yr Hen Destament, y Patriarchiaid a'r Proffwydi, Ioan Fedyddiwr ; ar eu hôl y cerddai apostolion, y pedwar efengylydd a'r 72 o ddisgyblion. Wedyn y deuai golygfa'r Cyfarchiad i Fair, preseb Nadolig gyda'r bugeiliaid a'r Doethion, ond golygfa'r Dioddefaint oedd y fwyaf, a dyna destun pregeth y Tad Maner fel arfer, pan gyrhaeddai gyda'r allor symudol a ddygai'r Hostïen (gan fod yr orymdaith



fawr yn orymdaith y Sagrafen hefyd).

Yn ystod y genhadaeth, fe ddetholid a hyfforddid y bobl a oedd i chwarae cymeriadau'r orymdaith. Felly y trwythid eu meddyliau a'u calonau yng ngweithredoedd sylfaenol y Ffydd, yn ddiymwybod ymron. A digwyddai llawer troedigaeth yn ystod yr orymdaith fawr.

**/2. Byw ar sail credu.**

Ond ceid digwyddiadau eraill yn ystod y Genhadaeth i ddysgu i'r bobl fyw eu Ffydd.

A. <u>Gweddïo a derbyn y sagrafennau.</u>

Yn gyntaf, dysgasant weddïo : gweddi'r bore am 4 o'r gloch cyn yr offeren ; gweddi'r nos wrth derfyn dydd, wedi bendith y Sagrafen. Yn yr emynau yr oedd ganddynt destunau cyffredin i weddi, ac, ar y llaw arall, gallai pawb weddïo'n bersonol. Dysgid patrymau o weddïau i ymbaratoi ar gyfer yr offeren a'r cymun ac i adrodd wedi'r cymun, ac arhosodd y rhain yn hir yng nghof y bobl. Pob dydd, wedi dau o'r gloch, gallai'r rhai nad oedd yn y gyffesgell ddysgu sut i weddïo, sut i holi eu cydwybod, sut i ymbaratoi ar gyfer cyffesu a chymuno, a sut i adrodd y llaswyr. Pob bore, cyn yr offeren, fe'u dysgid, yn raddol, sut i ymddwyn yn ystod ei rhannau gwahanol, canys yn Lladin yr oedd yr offeren i gyd yr amser hwnnw.

Gallai'r rhai yn Enciliad y genhadaeth ddysgu hefyd y 'weddi o'r galon', sef math o weddi rydd, heb ddibynnu ar neb gair.

B. <u>Buchedd gristnogol.</u> -

Fe adnewyddwwyd hefyd, yng ngoleuni'r Efengyl, ewyllysiau'r bobl a ddeuai i'r genhadaeth. Dyna werth y pregethau, wrth reswm : trwyddynt y ceid troedigaeth barhaol. Ond y **Taolennoù** oedd y moddion a arferid i newid manylion bywyd-bob-dydd y bobl. Eglurheid y **Taolennoù** yn y prynhawn, wedi'r gwersi cyffredinol eraill. Cyn mynd yn bellach, rhaid nodi nad moesoldeb yn union, ond, yn hytrach, dylanwad bywyd yr ysbryd ar foesoldeb oedd testun y **Taolennoù**.

Ymddiriedwyd y **Taolennoù** i'r Tad Maner gan Fikael an Noblez, a'u defnyddiai, neu a barodd i eraill eu defnyddio, yn helaeth. Yn Landernev, yn 1613, gwelir Mikael yn egluro **taolennoù** am y tro cyntaf. Frañseza Troadeg a'u gwnaeth iddo, yn ôl ei gyfarwyddiadau.

Ni wyddom beth a'i ysbrydolodd i wneud **taolennoù**. Yn ystod ei gyfnod cyntaf yng Nghonk-Leon, yn ddiamau, y cafodd y cyfle i weithredu yn ôl y syniad. O'r 15fed canrif ymlaen y ceid **taolennoù** wedi'u ysgythru ar bren, yn arddangos y niwed a wna pechod i eneidiau. Ceid wyth llun ar astell (tua 2' x 1'), neu wyth astell fechan (5" x 4"), a llun ar bob un. Nid erys ond 14 ohonynt, ar gadw yn esgobaeth Kemper.

Credir y gwnaeth Mikael an Noblez 70 **taolenn**, o leiaf. Tua 3' x 2' yw eu maint. Nis gwnaethpwyd, mae'n amlwg, i'w gweld gan lawer ar unwaith, ond i'w astudio gan nifer fechan, gan fynd o'r naill llaw i'r llall. Fe'u enwyd "**Taolennoù divinadennaouek**' ('Taflenni Dyfalu', neu 'Daflenni Pos'). Rhaid oedd, mewn gwirionedd, i'r bobl dreulio eu hamser i geisio eu deall, a chael rhywun hyddysg i'w hesbonio. Ceid **taolennoù** sumbolig hefyd, sef math o ddamhegion mewn lluniau.

Nid oes lle yma, o ddiffyg gofod, i roi'r syniad lleiaf am gynnwys **taolennoù** Mikael an Noblez. Ond dylid nodi nad math o gateceisio mohonynt, ond offeryn yn llaw y cynghorydd-ysbrydol penigamp hwnnw, Mikael an Noblez. Dysgodd yn llwyddiannus i bobl distadl (yng ngolwg y byd), ddeddfau'r bywyd ysbrydol, sef bywyd wedi'i ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân. Mae'n wir na ddylanwadodd ar lawer o bobl drwyddynt, ond, yn hytrach, bu dylanwad dwfn ar ychydig, a'r rhain yn damaid o furum yng nghalon y lliaws wedyn. Ysgol mewn 'dibristod o'r byd' oeddent yn wir, ac arfer chwedl Mikael.

Dywedodd Mikael an Noblez am y **taolennoù** wrth y Tad Maner, yn ystod eu cyfarfod yng Nghonk-Leon, ym 1640, gan ei gynghori i ddysgu eu deunydd i'r bobl. Ond yn ôl y dystiolaeth, yn ogystal ag arfer **taolennoù** Miakel an Noblez pan oedd hynny'n addas, gwnaeth



y Tad Maner yntau **taolennoù** eraill, yn ôl y math o bobl a ddysgai, - gan fod rhaid wrth ddeunydd a oedd yn addas i'r gwrandawyr yn ogystal ag i'r cynghorydd. Y mae lle i gredu y defnyddiodd y Tad Maner hefyd **taolennoù** oedd yn ddigon fawr i'w arddangos o'r pulpud.

Ta waeth, arferwyd y **taolennoù**, o'r un math neu'r llall, hyd ddiwedd cynnal cenadaethau yn Llydaw, sef rhwng 1965 a 1970. Difesur, yn wir, yw'r gwaith da a wnaethant.

**CH.** Yr enciliadau-cenhadaeth.

Ym 1677, fel y nodwyd, cynhwysodd y Tad Maner enciliadau yn fframwaith y cenadaethau. Ers 1670, yr oedd Tŷ-Enciliad ar gael yng Nghemper, a seiliwyd ar ei gyngor ef gan ei reolwyr Ieswitaidd. Ond yr oedd angen cynnig i bobl, na allai fyth deithio yno, y cyfle i gael enciliad bach. Am hynny, tu mewn i'r genhadaeth gyffredinol, gallai'r rhai a ddymunai roi eu henwau ar gyfer enciliad o wyth diwrnod. Felly y gellid cael tri dosbarth o encilwyr, hyd at 500 o bobl ym mhob un. Gellid eu harwain hwy, mae'n amlwg, yn bellach ar hyd ffordd y bywyd. I'r rhai a gymerasai rhan mewn cenhadaeth gyffredin eisoes, gallai fod yn werthfawr dros ben iddynt encilio yn ystod y genhadaeth nesaf.

**D.** Cyfiawnder a chariad.

Yn ogystal â chael cyfle i gywiro'r berthynas â Duw, gallai'r bobl gywiro eu perthynas â'u cymdogion hefyd. Yn y maes hwn, mae'n amlwg y daw drygioni, yn anad dim, o ddiffyg cyfiawnder a chariad. Yn "**Nydd-lyfr y cenadaethau**", sef ei adroddiad i Rufain, nododd y Tad Maner y nifer o gymunwyr, a'r nifer o droedigion ar gyfer pob cenhadaeth, a hefyd nifer y rhai a gymododd â gelyn a'r sut y byddai dau neu dri o'r cenhadon, wedi'u rhwymo i gadw cyfrinachau, yn llenwi "**llyfr yr adferiadau**". Ynddo y nodwyd enw a chyfeiriad y sawl a oedd i gael ad-daliad a maint yr arian dyladwy. Bydddai'r cenhadwr yn rhoi derbynneb i'r talwr, a rhyddheid cydwybod hwnnw felly. Mawr iawn oedd nifer y cymodiadau a symbylwyd gan y cenadaethau.

E. Yr ymwybod o urddas yr aelod eglwysig.

Gallwn led-amgyffred mor gyffrous oedd cerdded yn yr orymdaith drefnus a derfynai y Genhadaeth. Fe ddysg ein holl wybodaeth i ni mor wir ydyw fod gwaredigaeth yn dod at bobl yn ei chyfanswm, a gwaredir yr unigolyn tu mewn i'r bobl. Gallwn amgyffred felly faint o ofal sydd gan Dduw Dad am Ei bobl, a chyfeirir y gofal hwn atynt gan Iesu Grist, ar hyd ffordd yr Groes. Nid syndod y cafodd cynifer droedigaeth yn ystod yr orymdaith fawr.

Ond yn fwy fyth, yn ddiamau, gellid cael profiad o aelodaeth ym Mhobl Fawr Duw yn y Cymun, wrth derfyn y Genhadaeth ; offrymid y Cymun hwnnw dros ryddid Eneidiau'r Purdan. Parhai'r Cymun drwy'r bore i gyd weithiau, gan fod cynifer yno. Mae'n amlwg nad yw unrhyw ddatganiad o'n ffydd yn werthfawr onibai fod cyflwr-enaid yr unigolyn yn gytûn â bwriad y weithred gyffredin. Union amcan y Genhadaeth i gyd oedd hyrwyddo'r cytundeb hwn.

## PROBLEM Y 'SABAD'

Wrth derfyn, gair am y **'Sabad'**, math o gymdeithas gudd, lle byddai nifer o bobl, a ddenasid ac a dwyllasid gan y diafol, yn cysegru eu hunain iddo yn gyfangwbl. Byddai cyfarfodydd y **'Sabad'** yng nghanol rhos fawr anial, wedi'u goleuo gan ffaglau o resin a phyg. Byddai'r aelodau, o bob gradd gymdeithasol, offeiriaid hyd yn oed, yn treulio'r amser ym mhob math o chwareuon. Ymhlith y gynulleidfa y gorseddid anghenfil brawychus, y danfonwyd pob newyddian ato i gael addewid o bleser drwg ar hyd ei oes, pe cysegrai iddo ei gorff a'i enaid. Pe cytunai, byddai'n rhaid iddo wadu popeth a'i gwnaeth yn Gristion. Pe dymunai dychwelyd at y Ffydd wedyn, erlidai'r diafol ef â'i holl nerth.

Yn niwedd 1649, yn Sant-Gwenn, treflan o blwyf Mur, cyfarfu'r Tad Maner â phobl y **'Sabad'** am y tro cyntaf. Fe ddarganfu'n fuan mor gyffredinol oedd y drwg. Gyda chymorth llyfr Lladin, a roes Mikael an Noblez iddo ddeng mlynedd yn gynt, trefnodd ddull o glywed cyffes pobl y **'Sabad'**. Trafododd yr esgob Balthasar Grangier yr helynt â'r Tad Maner a'i gydweithwyr, wedi iddo glywed cwynion amdanynt. Er mwyn datrys y broblem yn derfynol, fe aeth i Baris lle barnwyd yr achos gan lys yn cynnwys Esgobion, Pamiers a Boulogne, Sant Vincent de Paul, a saith neu wyth o ddoethuriaid, yn ystod tri mis o ymholiad. C'hwefror 2il, 1658, penderfynodd aelodau'r llys yn unfrydol i ysgrifennu fod dulliau'r Tad Maner yn iawn. Wedyn, rhoes esgobion Treger, Kernev a Leon rym cyfreithiol i'r penderfyniad, y naill ar ôl y llall. Er hynny, ni pheidiodd y cwynion. Ond cafodd y Tad Maner y fuddugoliaeth yn y maes angenrheidiol : gellid rhyddhau addolwyr y diafol oddi wrth ei erledigaeth a'i ddylanwad. Fe ataliwyd drwg o'r math gwaethaf.



***** ***** *****

### Yr offeiriaid a'r cenadaethau

Cyfnod o atgyfodiad ysbrydol i'r Cristnogion Llydaweg, ac, yn gyntaf, rhai Kernev yn enwedig, oedd cyfnod y Cenadaethau yn y 17fed ganrif. Ond fe fyddai'r adnewyddiad hwnnw wedi dirywio'n gyflyn, petasai'r offeiriad, ac yn enwedig yr Offeiriaid-Plwyf, yn dal i'w wrthwynebu. Hwy bioedd y cyfrifoldeb o benderfynu sut y dysgid eu plwyfolion, a pha gymorth gan eraill oedd yn dderbyniol. Yr oedd yr elyniaeth tuag at Fikael an Noblez a holl syniad y Cenadaethau mor fawr am fod yr Offeiriaid-Plwyf yn tybio fod y genhadaeth yn hepgor ynteu'n dileu eu hawdurdod hwy. Ond pleidiodd yr esgobion y Cenadaethau'n frwd, a rhoi hwb i bethau. Yn raddol, darganfu'r offeiriaid, yn eu plwyfi eu hunain ynteu yn y rhai cyfagos, beth oedd y Cenadaethau ; yn raddol, sylweddolasant fod modd i feithrin gwaredigaeth eneidiau dr wy'r Llydweg ; yn raddol, dysgasant, - gan fod y m wyafrif ohonynt yn alluog, - sut i bregethu, cateceisio,

gweinyddu'r sagrafennau, clywed cyffes a rhoi cyngor ysbrydol gwerthfawr i bobl drwy fynd ar hyd y ffordd angenrheidiol, ffordd y Llydaweg. Rhoes y Cenadaethau batrymau, gwersi, dulliau iddynt. Hwy, a oedd y genhedlaeth olaf cyn sefydlu'r colegau diwinyddol, a gafodd cyfle i gael addysg bellach a oedd, yn anad dim, yn droedigaeth ysbrydol.

**Yr esgobion a'r cenadaethau :**
**yr Eglwys a'r boblogaeth llydaweg**

Gan fod yr esgobion yn cymryd rhan yn aml yn ngwaith y Cenadaethau, cawsant gyfle i agoshau at y mwyafrif o'u pobl ac i fyw am fisoedd cyfan yn y byd Llydaweg. Felly y chwalwyd yn llwyr y mur rhwng yr offeiriaid yn y plwyfi, a oedd yn byw eu bywyd yn ffrangeg, a'r lliaws o werinwyr, wedi'u gadael yn eu Llydwaeg ac yn eu hanwybodaeth am y ffydd. Daeth y Ffydd a'r iaith gyda'i gilydd yn dir cyffredin i bawb fel petai, hyd y gellid tybio na ellid gwahanu'r Ffydd a'r Iaith.


Trwy Genadaethau'r 17fed canrif crewyd ffurf boblogaidd o Gristnogaeth a oroesodd hyd Ail Gyngor y Fatican, rhyw 300 mlynedd felly. Ac ni ellir dywedyd a fydd y nod a argraffwyd ar ein gwlad gan Fikael an Noblez, y Tad Maner a'u cydweithwyr, yn cael ei lwyr-dileu.

Y mae'n wir y daethant mewn oes pan allaia'r Eglwys yn Ffrainc ddylanwadu'n ddigon ddirwystr ar liaws y bobl. Ond fe ddaethant, er hynny, am mai ewyllys Duw a'u cymhellodd.

Pan drwythir rhywun yn hanes y cyfnod, bydd yn anadlu awyrgylch gwyrthiol sy'n ein synnu, wrth ei gymharu â'n dyddiau ni. Ond rhy fyr ac annigonol yw fy ysgrif er mwyn ailgreu o'ch blaen yr awyrgylch hwnnw.

**Maoris Ar C'HOLLO**

## ESGOBAETHAU LLYDAW
## YN AMSER MIKAEL AN NOBLEZ
## A'R TAD MANER




Y mae esgobaeth Dol wedi ei lliwio
yn ddu, ac ar wasgar trwy Lydaw cyfan

## SYLWADAU'R GOLYGYDD

Yr wyf yn falch o gyhoeddi astudiaeth wych Maoris ar C'hollo ; yn fwy felly am ei fod yn hen bryd i ni gyhoeddi'r gwir am y ddau ddyn mawr hyn a fu gymaint o ddylanwad ar fywyd ysbrydol eu cydwladwyr, yn fwy dylanwadol yn sicr nag unrhyw arweinydd gwleidyddol. Anghofir hynny yn aml.

Hyd yn ddiweddar, hyd y rhyfel diwethaf, yr oedd y ddau'n adnabyddus ymhlith y werin. Pan oeddwn yn fachgen, yr oedd bywgraffiad o Fikael an Noblez yn fy nghartref. Darllenais ef pan oeddwn 11 neu 12 oed. Ysgrifennwyd y bywgraffiad hwn yn ffrangeg, wrth gwrs, mewn hen gyfrol garpiog. Er hynny, y llyfr hwn a ddatguddiodd Lydaweg ysgrifenedig i mi : darn bach, dihareb a ddyfynnwyd ynddo. Yr oedd hanes pobl Gwaien - ganwyd fi yno - yn dal fy sylw hefyd : yr oeddent wedi cael eu cosbi am beidio â gwrando ar bregeth Mikael ; bu eu cosb colli eu llyges masnachol cyn bo hir. Wedyn, pan ddeuthum yn genedlaetholwr, meddyliwn am ba fath o ymwybod Llydewig oedd gan Fikael an Noblez. Er iddo fynd i Baris am dro, mae'n amlwg nad Ffrancwr oedd. Cadwai Llydaw gyfundrefn gyfreithiol wedi'r uniad â Ffrainc (yn annhebyg i Gymru), ac nid oedd effeithiau diwylliannol yr uniad wedi dechrau. Astudiodd Mikael drwy'r Lladin yn unig ; dyn o'r dadeni-dysg oedd, yn darllen Groeg fel y darllenwn ni Ffrangeg. Yr oedd taleithiau'r deyrnas Ffrengig wedi eu rhannu'n ddaearyddol ; ni siaredid ffrangeg yn rhai ohonynt. Nid oedd fyrdd da yn y deyrnas chwaith (trwy for e teithiai Mikael o Lydaw i 'Wien', hyd Bourdel, y porthladd mwyaf yn y talaith hon, ac hyd yn oed, o Ddouarnenez i Gonk-Leon, yn ymyl Brest : ni allai Ffrainc felly gynnig diwylliant i'r cenhadwr llydewig ; yr Eglwys yn unig a arweiniodd ei feddwl.

Troaf yn awr at gyhuddiad ein cyfoedion, marcsaidd neu beido, fod y cenhadon wedi diystyru gwleidyddiaeth : yr hen ystrydeb "opiwm y bobl". Yr ateb cyntaf iddynt

yw : Nid yw gwleidyddiaeth ond math o grefydd newydd lle bydd gallu gwleidyddol yn cymryd lle Duw a'r Eglwys. Opiwm ydyw yn wir, am ei fod yn atal pobl rhag ceisio ystyr i fywyd. Cynnwrf a chwarae gwaedlyd yw gwleidyddiaeth weithiau. Y ffug-grefydd hon a chwalwyd gan Mikael an Noblez, y Tad Maner a'u cynhorthwywyr. Mae'n rhyfedd sut yr ystyrir "**cefnu ar y Byd**" fel arwyddair crefydd glaear, pan oedd, mewn gwirionedd, yn chwyldroadol, yn golygu gwrthod gallu gwleidyddol.

Ni wn paham y coelir heddyw fod y Wladwriaeth a'r Eglwys yn gynghreiriaid yn Ffrainc y 17fed ganrif. Yn sicr, ceisiodd y Wladwriaeth ddefnyddio'r Eglwys gymaint ag y gallai (nid yw'r traddodiad hwn wedi diflannu yn Ffrainc eto), ond - wrth gwrs - am ei lles ei hun, nid lles yr Eglwys. Heblaw "penlinio mewn defosiwn", rhoddai Lewis XIV pob cymorth a nawdd i ymgyrch gwrthglerigol Molière, a cheisiai gyfyngu ar awdurdod yr Eglwys gymaint ag y gallai, a'r Archesgob Bossuet ei hun yn ei helpu. Arweiniodd hefyd, yn ddidrugaredd, ryfeloedd ymerodraethol a chreulon eu hysgelerderau, gan gyflwyno ei hun i'w addoli gan ei ddeiliaid fel ail i Ymerawdwr Rhufeinig (arluniwyd ef weithiau yn ngwig y rheiny). Dyna beth oedd **y Byd** ! A gellir gweld sut yr oedd y fath wladwriaeth yn derbyn gau athrawiaeth y Janseniaid. Modd werthfawr o barchuso syniadaeth y wladwriaeth oedd unig ddefnydd yr Eglwys iddi. Heblaw hynny, cymeradwyai'r Janseniaid **adael** y Byd a byw er mwyn gwaredigaeth bersonol, agwedd wrth-gymdeithasol iawn. Yn sicr, ni faliai swyddogion y Brenin Mawr ddim am uniongrededd syniadau arbennig y Janseniaid ; eu casbeth oedd agwedd a **ddibrisiai'r Byd**, dibrisio Gallu, ei ystyried yn ddibwys ac yn annymunol. Ni ellid goddef y fath ddiffyg parch.

Yn ein hoes ni, mae'n haws synio am wleidydda gan Gristnogion, sy'n ceisio gwasanaethu eu cymdeithas. Ond rhaid sylweddoli na ellir diwygio cymdeithas heddyw heb ddiystyru ein Duw trosgynnol a gwirionedd y datguddiad Cristnogol. Gall y Chwith a'r Dde gyfeiliorni



yma ; mae holl bleidiau Ffrainc yn edrych yn ôl at amser gogoneddus **guillotine** Chwyldro Mawr Ffrainc, fel y dengys y capanau coch, gwyn a glas a wisgwyd gan y rhai a orymdeithiodd dros yr ysgolion preifat (Catholig gynt) yn Roazhon dwy flynedd hanner yn ôl.

Peth arall sy'n werth ei drafod yw'r berthynas rhwng y cenadaethau yn Llydaw yn y 17fed ganrif a'r Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru yn y 18fed ganrif, a Diwygiad 1905-1906 yn yr un wlad. Diau fod llawer a debygrwydd ; daeth y Methodistiaid, er enghraifft, tuag at fywyd crefyddol yn debyg i arfer Catholigion, drwy sefydliad y "**Seiat**", oedd yn cynnig arweiniad i'r enaid gan gynghorwyr ysbrydol, yn enwedig. Y mae math o debygrwydd hefyd rhwng y gorymdeithiau a drefnid ar derfyn y cenadaethau yn Llydaw yn y 17fed ganrif, a'r gorymdeithiau oedd yn cymryd lle yng Nghymru yn ystod diwygiad 1905-06, er nad oedd yr un diben na'r un ystyr i'r digwyddiadau hyn yn Llydaw ac yng Nghymru (math o **Imitatio Christi** oedd y gorymdaith llydewig). Yn y 18fed ganrif, - mae'n wir, - ni chafwyd gwyrthiau a gweledigaethau fel yr oedd yn Llydaw, ond gwyddys amdanynt yn adfywiad yr 20fed ganrif ; adroddir am ferch ieuanc a honnodd iddi weld y Forwyn Fair (gweler R. Tudur Jones : **"Ffydd ac Argyfwng Cenedl"**, os cofiaf yn iawn). Yn ddiamau, bu ffrwyth, ffrwyth pwysig, i'r diwygiadau hyn. Cafodd llawer o bobl droedigaeth barhaus. Yn sicr y ceisiai'r Ysbryd Glân weithio ym mhob modd sydd yn ymarferol, gan barchu'r sefyllfa gymdeithasol gyfoes a rhyddid dynion. Ni allai gyflawni Ei ddibenion yn gyfangwbl yng Nghymru oherwydd diffygion cymdeithas Gristnogol a ysgarwyd o'r Eglwys Gatholig gan y Wladwriaeth seisnig, - a ni ellir hepgor delfryd y Wir Eglwys yn y pen draw. Yn y diwedd felly, gwaethygodd y Diwygiad Methodistaidd ymraniadau'r gymdeithas Gristnogol yng Nghymru, gan iddo greu ei enwad ei hun yn nechrau'r 19eg ganrif. Byrhoedlog oedd effaith gyffredinol Diwygiad 1905-06, a ddiffoddwyd yn fuan fel tân gwellt. Mor amwys oedd rhai o'i ganlyniadau fel y gadawodd rhai o'i arweinwyr

a ddiffoddwyd yn fuan fel tân gwellt. Mor amwys oedd rhai o'i ganlyniadau fel y gadawodd rhai o'i arweinwyr y mudiad yn gynnar, gan ofni fod y diafol yn dylanwadu arnynt.

Dengys hyn nad yw'n hawdd i'r Ysbryd Glân weithio tu allan i'r Eglwys, er iddo geisio wneud hyn weithiau, gan fod diffyg undod Cristnogion yn deillio o wleidyddiaeth ac yn cael ei atgyfnerthu heddyw. Felly nid yw Cristnogion fel y cyfryw yn gyfrifol amdano, a gall yr Ysbryd Glân eu cynorthwyo dan yr amgylchiadau hyn. Y peth hynod am Genadaethau Llydaw yn y 17eg ganrif yw eu tarddiad tu mewn i'r Eglwys a'r ffaith iddynt lwyddo pregethu'r Ffydd gan gryfhau undod yr Eglwys yr un pryd.

Rhaid nodi wrth derfynu nad yw ein cyfoedion yn ddigon syml i werthfawrogi digwyddiadau goruwchnaturiol. Gwrthododd Crist wneud gwyrthiau dros y Phariseaid. Gwneir y fath arwyddion am bobl sy'n agos i'r byd naturiol ac yn barod i gredu y gwnaethpwyd popeth ynddo gan Dduw, - a gwaith Dyn yn y bydysawd yn ddistadl. Seilir ein diwylliant ar y syniad cyferbyn : deunydd crai yw natur, a Dyn yn ei Gymdeithas sy'n ei ddyfnyddio i greu popeth. Diau hefyd yr erys iaith gwyrthiau yn amwys gan ei bod yn sôn am ddau fyd ar unwaith, hep berthyn yn hollol i'r naill na'r llall. Nid yw yn hawdd felly wahaniaethu gweledigaethau dilys rhag rithiau histeraidd. Y maen prawf yw ffrwythau'r digwyddiadau hyn : a ydyw'r Eglwys yn cynyddu o'u herwydd, er enghraifft. Yn sicr, ni ellir cau allan yn ffufiol bob arwydd gwyrthiol, oherwydd na fyddai'r Eglwys wedyn ond math o blaid wleidyddol, i'w barnu gan safonau gwleidyddol yn unig.

Youenn OLIER

*=*=*=*=*=*=*=*=*=*=*=



## CRISTNOGION GYMRU

**gan**

**J.P. BROWN**

Dechreuodd rhai ohonoch eich profiad uniongyrchol o Gymru yn yr un amser â'r Pab. Dechreuaf innau heddyw gyda'r Pab. "**Pabyddion**" yw'r enw Cymraeg arferol am Gatholigion yn awr, - enw sarhaus yn gyntaf, canys, yr adeg honno, gwelwyd y Pab yn brif elyn gwir Gristnogion. Rhyfedd mai'r enw arferol am Gatholigion yn Llydaw yw "Cristnogion" ! Erbyn hyn, mae'r gair "Pabyddion" yn ein dynodi, nid yn ein sarhau, - ond erys y ffaith digon chwithig mai'r prif rwystr i undod Cristnogion yng Nghymru yw'r Pab, neu, a bod yn gyfewin, syniad y Babaeth. Dywedodd neb llai na'r Pab Paul VI rywbryd mai'r Pab yw'r prid rwystr i undod, yn ogystal â bod yn ganolbwynt undod. Nid eithriad yw Cymru felly, ond efallai enghraifft sy'n gallu egluro'n arbennig o eglur y gwirionedd cyffredinol.

Yr wyf i, fel pob Pabydd arall yn yr ystafell hon, yn credu fod y Pab yn gwbl angenrheidiol i'r Eglwys Cristnogol. Hebddo, ni ellir cadw'r athrawiaeth yn ei chyflawnder na '**safonau**' ymddygiad moesol. Ni chyfyngir y dylanwad iachus hwn i Babyddion yn unig, e.e., heb y Pab, ni fuasai Mudiad Rhydychen yn Eglwys Loegr, fel y gwelodd un o'i arweinwyr, Newman, yn y pen draw. Heddyw, mae llawer o Brotestaniaid Cymru'n cydnabod yn ddiolchgar fod geiriau'r Pab am y Ffydd Gristnogol yn fendith i Gristnogion o bob enwad ac, yn wir, i'r holl fyd. Ond sylwch : 'geiriau'r Pab am y Ffydd, a ddywedais, nid 'geiriau'r Pab am wleidyddiaeth yng Ngwlad Pwyl, neu'n Nicaragua', nid 'gweithredoedd y Pab' ychwaith, ac nid 'llywodraeth y Pab', a rhoi, fel enghraifft

o lywodraeth, penodi arweinwyr lleol yr Eglwys, yr Esgobion, gan y Pab.

Pob tro y gwelir yr Iesu'n cadarnhau awdurdod Pedr, y mae cerydd i Bedr yn dilyn ar unwaith. Y mae Pedr yn gwrthod rhaglen sy'n golygu gelyniaeth rheolwyr y wlad (Math 16, 21,22) ; mae'n moliannu ei rinweddau ei hun (Luc 22, 23), ac yn busnesa yn helyntion Ioan (Ioan 21, 21). Yn ddiau, ffrwyth pechod yw pob heresi a rhwyg. Ond pechodau pwy ? Nid pechodau'r hereticiaid yn unig, neu hyd yn oed yn bennaf. Pechadur oedd Pedr, pechadur yw'r Pab ; pechaduriaid ydym ni oll. Ond mae hyn yn dilyn : gallaf ddywedyd wrth y Pab, yn gam neu'n gymwys : "Ni hoffaf eich sylwadau gwleidyddol, na'ch gweithredoedd, na'ch dull o lywodraethu'r Eglwys..." Ond ni allaf ddim ychanegu : "Am hynny nid yw awdurdod Pedr gennych..."

Er bod y Pab yn angenrheidiol i'r Eglwys, nid yr un peth a'r Eglwys. "'Fyddai neb yn dywedyd hynny," meddwch. Na ? Ystyriwch y dywediad cyfarwydd : "Merch hynaf yr Eglwys yw Ffrainc." Gwyddoch yn iawn fod aelodau'r Eglwys catholig, ie, yr Eglwys Babyddol, ar dir a hawlir heddyw gan Ffrainc, ryw ganrif cyn tredigaeth Hlotwig ("Clovis"), sef eich hynafiaid chwi. Bydd Pabyddion Lloegr hwythau'n brolio : "Y Pab a sefydlodd Eglwys Lloegr." Gwir, ond bu Pabyddion ar dir a hawlir heddyw gan Loegr, sef Cymru (a Chernyw, Manaw, yr Alban, Iwerddon ac hyd yn oed rhannau o Loegr), ryw ganrif a hanner cyn troedigaeth Aethelberht o Loegr. Awgrymaf i chwi fod y ddau ddywediad hyn yn tueddu uniaethu'r Pab â'r Eglwys. Nid 'merch hynaf yr Eglwys' yw Ffrainc o gwbl, ond yn hytrach, yr enghraifft gyntaf o'r drefn bresennol o lywodraethu'r Eglwys gatholig, sef 'eglwysi cenedlaethol' wedi'u haroly-gu'n bur fanwl gan y Pab a'i lys ar y naill llaw, a dylanwad y Wladwriaetah yn gryf ynddynt ar y llaw arall. Bu rhwygau rhwng y Pab a'r Wladwriaeth, yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn Ffrainc, yn y ddeunawfed, ond credaf fod perthynas rhy agos rhwng yr Eglwys



Babyddol a'r ddwy wladwriaeth hyn heddyw.

A siarad yn fras, mae'r Eglwys yng Nghymru, sef yr enwad Anglicanaidd sydd mewn cymundeb ag Eglwys Wladol Lloegr, er nad yw'n bellach yn eglwys wladol ei hun, yn gwrthod dull y Pab o lywodraethu'r Eglwys, ond mae Protestaniaid eraill Cymru, yr 'Ymneilltuwyr', yn gwrthod y cysylltiad â'r Wladwriaeth hefyd. Er hynny, fel y nodais eisoes, maent yn gwerthfawrogi'n fwyfwy ddysgeidiaeth y Pab, ac, - a dywedyd y lleiaf, - yn llawer nes atom yn eu safonau moesol : cyfiawnder a heddwch, ymddygiad rhywiol ac ati, na'n cywlwadwyr di-grefydd. Ond ni bydd undod yr Eglwys yn gyflawn, ac felly ni bydd cytundeb ar athrawiaeth a safonau moesol yn ddigonol, cyn i ni ddeall ein gilydd am y berthynas rhwng y Pab a'r Eglwys.

*** **** **** ***

Bwriadaf yn awr garlamu drwy hanes crefyddol Cymru o'r dechrau, canys dyna'r unig fodd i egluro ein sefyllfa grefyddol heddyw. Mae hyn yn wir am unrhyw wlad , efallai, ond, yng Nghymru, mae hanes yn ollbwysig. Holir weithiau paham nad arhosodd Cymru'n babyddol, fel y gwnaeth, hyd yn ddiweddar o leiaf, Llydaw ac Iwerddon. Ateb byr ydyw : "Oherwydd sefydlu Eglwys Loegr gan y Pab Grigor yn y 6fed ganrif !"

Dinasyddion o'r Ymherodraeth Rufeinig oedd y Cristnogion cyntaf yng Nghymru a Chernyw : aeth rhai ohonynt i Lydaw. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif, Cristnogaeth oedd crefydd y Wladwriaeth drwy'r Ymerodraeth i gyd, a chafodd Marthin o dTours, er enghraifft, gymorth y Wladwriaeth wrth efengyleiddio yng Nghâl. Eisoes, yr oedd y Pab yn ymddidori ym Mhrydain ; hyrwyddodd Celestin hefyd daith Garmon i Brydain (428), ac, yn sicr, cydweithiai Garmon â'r arweinwyr gwleidyddol. Ond gwaith esgobion Eglwys Gâl, nid cenhadon o Rufain, oedd teithiau Garmon. Bu Garmon yn llwyddiannus yn nhir y 'Brython' ('Brettones', nid 'Britanni'), a enwyd

**'Insula Brittaniae'**, neu 'Ynys Prydein, sef Cymru, Cernyw cyn belled ag Ynys Wyth a Bryste, a Dehau Alban, ond nid yn y tir a reolid yn uniongyrchol gan y Saeson ("**Brettia**", ac arfer enw Procopios, "**Lloegr**" heddyw). Cyn bo hir, enwid y Brython gan eu beirdd "**llu bedydd**", mewn cyferbyniad a'r "**gynt**" ("**gentes**"), y Saeson paganaidd. Wedi dyddiau Celestin, manteisiodd y Pab Leo ar ei berthynas agos â'r Wladwriaeth (gan Aëtius, yn enwedig), i geisio llywodraethu'r Eglwys yng Nghâl yn uniongyrchol, gyda'r hawl i benodi ei hesgobion, ond methodd. Ymhlith Cristnogion Cymru, ar y llaw arall, beirniadodd Gildas y Wladwriaeth yn llym, yn null Jeremeia, - a dull yr Ymneilltuwyr heddyw.

Gwaethygodd y sefyllfa wleidyddol yng Nghâl. Cyn bo hir, yr oedd un rhan o'r Gogledd yn unig yn gwbl Rhufeinig, sef Llydaw. Penderfynodd yr Ymherawdwr gadw rhyw fath o awdurdod yn y gweddill drwy gydnabod Hlotwig. Yr oedd y dealltwwriaeth rhwng Hlotwig a'r Esgobion Gâl yn bwysig yna. Diau y byddai'r dinasyddion Rhufeinig teyrngar yn Llydaw yn gweld y cytundeb â Hlotwig yn frad. Nodia Fleuriot y dystiolaeth am dybio fod y cytundeb hwn yn achos rhwyg rhwng Esgobion Llydaw ac Esgobion talaith Tours, ac felly, rhwng Esgobion 'Ynys Prydein' ac Esgobion Gâl. Yn y chweched ganrif, cynyddodd llywodraeth y Pabau yng Nghâl ; yr archesgobaeth yn Arles oedd y prif foddion. Tua diwedd y ganrif honno, penderfynodd y Pab Grigor, nid yn unig i sefydlu 'eglwys genedlaethol' ym Mhrydain Fawr, drwy anfon Awstin o Rufain i fod yn archesgob yn ei phrifddinas, Llundain, ond i gynnwys Esgobion y Brython dan awdurdod Awstin, **Ecclesia Britannica,** nid **Ecclesia Anglicana** oedd bwriad y Pab. Rhagwelai Grigor wrthwynebiad y Brython, a threfnodd i Awstin droi o'i ffordd union i Gaint i dTours, i ymofyn cyngor y rhai a phrofiad ganddynt o drin y Brython. Ond ni chawsai Archesgobion Tours lawer o lwyddiant gyda Brython Llydaw, fe ymddengys, a chafodd Awstin lai fyth gyda Brython 'Ynys Prydein'. Methiant, i raddau



helaeth, fu cynllun Grigor. Brenin Cristnogol mewn talaith o Loegr fu ei unig ffrwyth, ac yr oedd gwraig y brenin hwnnw wedi bod yn gristnogol cyn dyfodiad Awstin. Mae'n gwbl sicr hefyd fod rhai o'r Saeson mewn rhannau eraill o Brydain yn gristnogol cyn dyfodiad Awstin ac yn ymgyfathrachu â'r Cristnogion 'celtaidd'.

Yn fwy na chanrif yn ddiweddarach, adroddodd yr hanesydd Seisnig, Beda, hanes cenhadaeth Awstin, gan ogoneddu'r Pab ac Awstin, er bod rhai o fanylion ei hanes yn feirnadaeth arnynt, yn fy marn i, o leiaf. Yn waeth, beirnadodd Beda feiau'r Brython yn di-drugaredd a pheidiodd â son am eu llwyddiannau ; roedd Beda'n deg, er hynny, i'r cenhadon Gwyddelig. Ond **ar y pryd,** nid oedd yr anghytundeb rhwng Grigor a'r Brython o bwys parhaol. Ymhen deng mlynedd ar ugain, cydweithiodd y cennad Rhufeinig, Paulinus, fe ymddengys, â'r esgob brythonig, Rhun ab Urien, i efengyleiddio'r Gogledd-Saeson ac, yn sicr, yr oedd y cenhadon Gwyddelig a Rhufeinig ac, - er nad ydyw Beda yn eu henwi, y Brython, yn cydweithio yn Nehau Lloegr ymhen deng mlynedd arall. Mae'n amlwg fod Rhufain wedi peidio â galw am 'reolaeth uniongyrchol' ar esgobion Brython, ynghyd â'r cydymffurfio ar faterion 'defodol', - nid athrawiaethol, megis dyddiad y Pasg : cydymffurfiad a oedd yn 'arwydd rheolaeth', neu 'deyrnged' yn bennaf, beth bynnag ei werth ymarferol.

Ond cyn gynted ag yr oedd efengyleiddio Lloegr yn weddol gyflawn, adnewyddodd rhai o bleidwyr Rhufain yr ymgyrch am gydymffurfiad. Yn "Synod Whitby", methodd y clerigwyr Rhufeinig a 'Cheltaidd' â chytuno ar ddyddiad y Pasg, a'r **Wladwriaeth,** sef Brenin Lloegr, a dorrodd y dadl, o blaid Rhufain, wedi iddo glywed fod awdurdod Pedr yn gefn i'r dyddiad Rhufeinig, a'r un Pedr oedd ceidwad parth y nefoedd. Wedyn, anfonodd y Pab Archesgob newydd, Theodor, yn syth o Rufain, gan sicrhau'n ofalus y byddai hwnnw'n mynnu cydymffurfiad defodol. Gwrthododd y Brython benderfyniad Whitby, ac nid oeddynt dan awdurdod yr Archesgob newydd.

Bu yr ail anghytundeb yn fwy parhaol na'r cyntaf, ac aeth canrif heibio cyn i'r 'Celtiaid' olaf, Brython Cymru ei hun, dderbyn dyddiad y Pasg. Ond cadwodd y 'Celtiaid' eu 'hannibyniaeth' parthed Archesgob Lloegr. Collodd Cymru yr annibyniaeth honno bedair canrif wedyn, pan orygynnodd y Saeson Cymru, dan eu brenin normannaidd newydd. Erfyniodd y Cymry wedyn ar Rufain am eu harchesgob eu hunain, ar sail yr eglwys a oedd yma cyn Awstin, ond yn ofer. O hyn ymlaen, rhan o 'eglwys genedlaethol' Lloegr oedd y Cymry, ac eithrio amser Owain Glyndwr, adeg y Rhwyg Mawr, pan gydnabyddai'r Cymry un o'r ymgeiswyr am y Babaeth, a'r Saeson y llall. Yn naturiol, bernir heddyw mai dewis y Saeson oedd y gwir Bab !

Yn 1283, cyflawnodd y Saeson oresgyniad Cymru ac wedyn, er nad ar unwaith, seisnigeiddiwyd y clerigwyr yn raddol, er bod yr offeiriaid cyffredin yn tueddu pleidio Cymreigrwydd. Dwy ganrif wedyn (1485), cipiodd Harri'r Seithfed goron Lloegr. Perthynai tad Harri i deulu cymreig, a gwelodd y Cymry ei fuddugoliaeth, nid yn unig yn ddial ar y goresgyniad, ond hefyd yn adferiad o reolaeth dybiedig y brython ar Brydain oll gynt. O hyn ymlaen, bu tueddiad i dderbyn unrhyw beth a ddaeth o Loegr, am fod Cymru a Lloegr yn un dan reolaeth 'Cymro'. Yn wir, gwnaethpwyd Cymru a Lloegr yn un yn gyfreithiol, dan yr enw 'Lloegr', yr un adeg yn union (1534) ag y torrodd mab Harri gysylltiad Eglwys Llogr â'r Pab. Dadleuodd Pabyddion ffyddlon Lloegr, - ac ychydig oeddynt, - fod y Brenin yn gwrthod felly sefydlydd cyntaf Eglwys Loegr, sef y Pab Grigor. Ond dyma Brotestant dysgedig o Gymro (William Salesbury) yn gwrthddadlau fod Eglwys Gristnogol wrth-Babyddol ym Mhrydain cyn amser Grigor, fel y dywedodd Beda. Coeliodd y Cymry hynny hefyd ; pan oedd y merthyr cymreig, Rhisiart Gwyn, am ei brawf am ei Babyddiaeth, apeliodd at Awstin a Grigor, nid at ei hynafiaid Cristnogol ei hun. Gallai Protestant o Gymro ar y llaw arall, daeru ei fod yn deyrngar i



draddodiad Cristnogol ei genedl, er ei fod, mewn gwirionedd, yn arddel rhai athrawiaethau a fuasai'n gwbl annerbyniol gan y traddodiad hwnnw. Ofer, mae'n debyg, yw ystyried 'beth allasai fod' ond credaf : Pe cydnabuasai Rhufain 'hunan-reolaeth eglwysig' y Cymry yn amser Awstin, yn amser Whitby neu, hyd yn oed, mor hwyr ag amser y Normaniaid, gwrthodasai'r Cymry ddilyn Lloegr yn y Diwygiad Protestannaidd, fel y gwrthododd y Gwyddyl, ac, fel y Gwyddyl, hawlasiai'r Cymry eu hannibyniaeth wleidyddol wedyn.

r Ond, mewn gwirionedd, difrawder a dryswch fu yng Nghymru, pan giliodd Harri'r Wythfed o Rufain. Ni hoffai'r Cymry cyffredin y gwasanaethau ac arferau newydd, ac yn bennaf am eu bod yn dod o Loegr, ond nid ymladdasant am yr hen drefn, fel y gwnaeth Cernyw a Gogledd-Lloegr. Lleiafrif oedd y Cymry Pabyddol deallus a selog. Lleiafrif hefyd oedd y Protestaniaid deallus a selog yn ystod teyrnasiad Mari, merch Babyddol Harri'r Wythfed, ond llosgwyd tri yng Nghymru am heresi, - gweithred a sicrhaodd y byddai Protestaniaid Cymreig y dyfodol yn cashau Pabyddiaeth. Ni ddangosai'r mwyafrif 'frwdfrydedd' am adferiad Mari ychwaith, a phan sefydlwyd trefn Brotestannaidd barhaol gan ferch arall Harri, Elisabeth, yr oedd Cymru'n llonydd. Er hynny, bu unigolion nad oedd am dderbyn y drefn newydd. Ceisiai ychydig waredigaeth wleidyddol drwy gymorth Ysbaen ; ffodd eraill i'r Cyfandir, lle'r oeddynt yn amlwg iawn yn y colegau newydd i hyfforddi offeiriaid i ddod yn ôl i Brydain i adennill y bobl i Babyddiaeth. Yn wir, cynifer oedd y Cymry yn y **Collegium Anglicum** yn Rhufain, fel y ceisiasant ei droi i goleg Cymreig. Pleidiodd y Pab y Saeson yn y gynnen hon. Ni bu felly cenhadaeth arbennig i Gymru. Daeth rhai o'r offeiriaid newydd Cymreig yma, ond aeth eraill i Loegr. Merthyrwyd tua deg ar hugain ohonynt yn y ddwy wlad. Y cyhuddiad, fel arfer, oedd teyrnfradwriaeth : ceisiodd y Wladwriaeth awgrymu fod **pob** Pabydd dros ymyrraeth Ysbaen. Cafodd y cenhadon beth llwyddiant ond nid

drwy Gymru i gyd : mae gennym enwau digon o bobl a wrthododd fynd i wasanaethau'r Eglwys Wladol (gan fynd felly i offeren gyfrinachol yn ôl y cyfle) yn siroedd (presennol) Gwent, Brycheiniog, a rhannau o Glwyd a Gwynedd. Yn ymyl y ffin â Lloegr oedd y llwyddiant mwyaf felly. Erbyn ail hanner y ganrif nesaf, goroesai tri chadernid Pabyddol yn unig : ardal eang yng Ngwent, a gollwyd yn weddol lwyr ddiwedd y ddeunawfed ganrif ; ac o gwmpas Aberhonddu a Threfynnon. Pan ddaeth y dylifiad mawr o Wyddyl i Gymru yn y ganrif diwethaf, bu priodi rhyngddynt a'r Pabyddion Cymreig. Mewn canlyniad, eglwys o fewnfudwyr yw'r Eglwys Babyddol gyfoes yna. O'r 2½ miliwn o drigolion Cymru, 150 000 sydd yn Babyddion (60 000 yn mynd i'r offeren yn rheolaidd).

Does neb wedi cyfrif y Pabyddion Cymraeg. Dyfalwn innau fod dwy fil a hanner o'r rhain wedi dysgu'r iaith. Mae y Pabyddion-iaith-gyntaf fel arfer yn ganlyniad priodasau Pabyddion a Phrotestaniaid Cymraeg, er bod ychydig (cant neu ddau ?) o droedigion Cymraeg. Bu cynnydd cyson yn nifer y Pabyddion yng Nghymru hyd yn ddiweddar, ond cofier fod rhwng un ac dau y cant o drigolion Cymru yn mynd i fyw yn Lloegr bob blwyddyn, a thua'r un nifer o bobl yn dod yma o Loegr. Mae llawer mwy o Babyddion ymhlith y rhai sy'n cyrraedd nag ymhlith y rhai sy'n ymadael ; felly roedd y cynnydd yn anorfod, a'r ffaith fod y cynnydd wedi peidio yn dangos mai dirywiad yw'r wir sefyllfa. Ond teg yw dywedyd fod Pabyddion Cymru'n ymdeimlo â Chymreigrwydd lawer mwy nag yr oeddynt gynt, fel y dangosodd y gymeradwyaeth frwd pan ddechreuodd y Pab yr Offeren yn Gymraeg y llynedd.

*** **** **** ***

Etifedd Eglwys Wladol Harri ac Elisabeth yw'r **Eglwys yng Nghymru** Anglicanaidd. Ffrwyth gwleidyddiaeth, - a gwleidyddiaeth estron, - oedd hi'n wreiddiol i raddau



helaeth, ond yn yr ail genhedlaeth o'i haelodau yn arbennig, bu nifer da o wŷr duwiol a geisiai bregethu'r ffydd Gristnogol i'w cydwladwyr didaro. Cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg cyflawn cyntaf yn 1588, - digwyddiad a sicrhaodd fod iaith crefydd Cymru yn Gymraeg hyd y ganrif hon. Onibai am hyn, nid oes amheuaeth y troasai'r gymraeg yn fuan i fratieithoedd gwladwraidd, a diflannu'n llwyr erbyn heddyw. Achubwyd y Gymraeg felly gan sefydliad Seisnig. Diau mai Seisnigrwydd yr Eglwys Wladol a achosodd ei cholledion enfawr yn ail hanner y ddeunawfed ganrif, er iddi gadw cynulleidfaoedd Cymraeg mewn llawer ardal. Ond yn 1920, oherwydd gweithredu gwleidyddol gan y Cymry a'i gadawsai, datgysylltwyd yr Anglicaniaid Cymreig oddi wrth y Wladwriaeth, er bod yr **Eglwys yng Nghymru** (ei henw yn awr) mewn cymundeb ag Eglwys Wladol Loegr, yn ogystal â'r Cymundeb Anglicanaidd byd-eang. Gwrthwynebodd yr Anglicaniaid Cymreig y datgysylltiad ar y pryd ond, erbyn heddyw, llawenhânt yn eu rhyddid newydd. Mae cysylltiadau answyddogol â'r elfennau Seisnig yng Nghymru'n parhau, a mewnfydwyr uniaith sy'n ymaelodi yn y plwyfi gwladol Cymraeg yn peri seisnigeiddio, ond, yn gyffredinol, sefydliad sy'n ymfalchio yn ei Chymreigrwydd yw'r Eglwys yng Nghymru bellach. Yn naturiol, ymsercha yn hanes Cristnogion cyntaf Cymru. Fel y gwelsom, credir fod y rhain yn wrth-Babyddol (er bod barn y dysgedigion yn newid). Ond yn ymarferol, am fod yr Eglwys yn pleido'r Cristnogion hyn, pleidia hefyd eu hathrawiaeth uniongred.

Ceir tri lleiafrif cryf yn Eglwys Loegr : yr 'Uchel-Eglwyswyr' (dilynwyr Newman a arhosodd yn Brotestanaidd) ; yr 'Isel-Eglwyswyr' (yn fras, edmygwyr Luther a Chalvin) ; a'r 'Moderniaid'. Yng Nghymru, cyfyngir yr Uchel-Eglwyswyr i rai ardaloedd Saesneg ; lleiafrif bach yw yr Isel-Eglwyswyr, ac eithriadau prin yw'r Moderniaid. Cyfaddawd rhwng y tri lleifarif yw'r mwyafrif yn Eglwys Loegr ('Yr Eglwys Eang') ond mae'r mwyaf-

rif Cymreig yn nes at uniongrededd. Ers ugain mlynedd, mae cryn dipyn o gyfeillgarwch a chyd-drafodaeth rhwng Pabyddion ac Anglicaniaid yng Nghymru.

Ond ni chymerodd Anglicaniaeth erioed le'r Eglwys Gymreig ganoloesol. Cymhellion crefyddol a ysgogodd y Diwygiad Protestannaidd er i'r Wladwriaeth ei ddefnyddio i'w lles ei hunan. Teg yw dywedyd mai **gwrthglerigol** fu prif syniadau'r Diwygwyr. Collfarnwyd camweddau'r clerigwyr Pabyddol, ariangarwch ac ati, ond dadleuwyd hefyd fod y camweddau'n deillio o'r honiad Pabyddol fod rhaid wrth offeiriad i gyfryngu rhwng y Cristion cyffredin a Duw ('Ei Dduw', meddir). Nid felly, meddai'r Diwygwyr, ond **sola Fide, sola Scriptura.** Yn naturiol, ni hoffai'r Cristnogion diffuant hyn ymyrraeth y Wladwriaeth, yn enwedig am fod y Wladwriaeth yn hollol fodlon fod elfennau Pabyddol yn y grefydd Wladol a'i gwnai'n fwy derbyniol gan y werin. Ymateb y Wladwriaeth i'r dynion selog hyn oedd yr un a'i hymateb i'r Pabyddion ffyddlon : eu herlid, a phe bai rhaid, eu lladd. Yn Lloegr, bu farw felly y Cymro, John Penry, dyn deallus a mawrfrydig, a chafodd yr **ymneilltuwyr** Cymreig ferthyr teilwng i'w hysbrydoli i wrthsefyll y Wladwriaeth. Cawsant hefyd tri merthyr i'w hysbrydoli i wrthsefyll y Babaeth ; er mai tri yn unig a laddwyd gan Wladwriaeth Mari yng Nghymru, yn Lloegr bu farw tri chant mewn tair blynedd (bu llai o Brotestaniaid yng Nghymru, ac yr oedd yr esgobion Cymreig yn llai awyddus i'w herlid).

Deilliodd yr Ymneilltuwyr Cymreig cyntaf o Ymneilltuwyr Lloegr fel y dengys eu cyfenwau a lleoliad eu cynulleidfaoedd cyntaf yn hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg. Y prif enwad yn eu plith yw yr 'Annibynwyr' a wrthwynebai lywodraeth yr Eglwys, nid yn unig gan y Pab neu'r Wladwriaeth, ond gan unrhyw gorff canolog ; eu huned llywodraethol felly yw'r gynulleidfa leol. Yr ail enwad yw'r **'Bedyddwyr'** a fynn gyfyngu bedydd i oedolion sy wedi datgan eu ffydd yn yr Iesu. Yn wreiddiol yr oedd gan y Bedyddwyr lywodraeth ganolog, ond heddyw maent yn debycach i'r Annibynwyr, er bod eu sylfaen



athrawiaethol cryf yn tueddu gwrthwynebu'r 'annibyniaeth'. Yn eu can mlynedd cyntaf, ni chafodd yr Ymneilltuwyr lawer o lwyddiant yn yr ardaloedd Cymraeg, gydag un eithriad pwysig, ardal Caerfyrddin. Yr un ardal oedd canolfan ysgolion teithiol a sylfaenwyd gan offeiriad Anglicanaidd (cadwyd y gair "**offeiriad**" i ddynodi gweinidog Anglicanaidd). Amcan yr ysgolion oedd dysgu'r werin i ddysgu'r Beibl Cymraeg. Yr oedd hyn yn gam pwysig arall i achub yr iaith rhag troi'n fratiaith wladwraidd.

1735 fu'r trobwynt pwysig yn hanes Protestaniaeth Cymru. Yr oedd y clerigwyr Anglicanaidd, John Weley, wedi dechrau'r **Diwygiad Methodistaidd**" yn Lloegr. Galwodd Wesley am sancteiddrwydd, wedi seilio ar **droedigaeth**, sef profiad o bechod personol ac o aberth gwaredigol Crist. Pwysleisiodd werth pregethau i ysgogi edifeirwch a chariad, yn hytrach na dysgu ffeithiau'n bennaf fel y tueddai pregethau'r Ymneilltuwyr ei wneud. Nid ofnai'r Methodistiaid gynhyrfu teimladau drwy eu pregethau a thrwy ganu emynau ac am hynny fe'u beirnadwyd yn llym gan Anglicaniaid traddodiadol. Dechreuodd Howel Harris bregethu yn y dull methodistaidd yng Nghymru. Cafodd lwyddiant ysgubol, yn enwedig ymhlith y to ieuanc, llawer mwy, ar gyfartaledd, nag y cafodd Wesley yng Nghernyw). O'r dechrau ymron, datblygodd Methodistiaeth ei chymeriad ei hun, ac ategwyd hyn gan wahaniaeth diwinyddol. Dilynodd Wesley a'r mwyafrif mawr o Fethodistiaid Seisnig athrawiaeth "Arminius", ond athrawiaeth **Calvin** a dderbyniwyd gant y Cymry.

Am eu pedwar ugain mlynedd cyntaf, arhosodd y Methodistiaid yn yr Eglwys Wladol, gan ffurfio "cymdeithasau" ar gyfer gweddi, astudiaeth yr Ysgrythur a chyfnewid profiadau ysbrydol. Deuai plant yr ysgolion teithiol at y cymdeithasau hyn, a hefyd, llawer o Ymneilltuwyr Cymraeg ardal Caerfyrddin ; fe aent i'r eglwysi gwladol i dderbyn y Cymun. Pwysleisiai Wesley werth y Cymun. Ond yn raddol lleihaodd y nifer o gleri-

gwyr a oedd yn fodlon rhoi'r Cymun i Fethodist. Ffurfia-
sant eu henwad eu hunain felly, er mwyn ordeinio eu
clerigwyr eu hunain. Felly y cafwyd '**Eglwys y Methodis-
tiaid Calfinaidd**', yr unig enwad crefyddol a seilir ar
y Cymry yn unig. Corff trefnedig yw, wedi'i lywodraethu
gan gymanfa cynrychiolwyr etholedig y gynulleidfaoedd
lleol, sef y drefn Bresbyteraidd, a'i deitl yn awr yw
'**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**'. Y corff a ordeinia'r
gweinidogion ond y gynulleidfa sy'n dewis eu bugail
o'u plith. Daeth y Methodistiaid Calfinaidd i fod yr enwad
pwysicaf yng Nghymru yn y ganrif diwethaf. Ond
ysbrydolodd eu llwyddiant yr hen Ymneilltuwyr, yr
Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Daeth dulliau rhain o addoli'n
debyg iawn i ddulliau'r Methodistiaid : pregethau
brwdfrydig, canu emynau, a chawsant hwythau lawer
o aelodau newydd. Hefyd, yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf,
teimlodd Methodistiaid Wesley yn Lloegr na allant oddef
Calfiniaeth y Methodistiaid Cymreig ac anfonasant
cenhadon i Gymru. Ni chawsant lawer o lwyddiant ymhlith
y Cymry Cymraeg ond, er hynny, hyd yn ddiweddar,
'roedd gan pob tref yng Nghymru ymron, a llawer o'r
pentrefi mwyaf, capel a gweinidog o bob un o'r **Pedwar
Enwad** Ymneilltuol : Presbyteriaid, Methodistiaid
(Wesleaidd), Annibynwyr a Bedyddwyr, yn ogystal ag
'Eglwys y Plwyf' yr offeiriad Anglicanaidd.

Er bod yr Ymneilltuwyr i gyd yn wrth-Babyddol, yn
aml yn fyrnig o wrth-Babyddol, seiliwyd yr agwedd
hon ar draddodiad am ddrygau'r canol oesoedd, ac, yn
enwedig, am y merthyron Protestannaidd, - ac ar newy-
ddion cyfoes o'r Eidal a'r gwledydd Ysbaeneg, yn hytrach
nag ar brofiad personol. Nid oedd hanes yr erledigaeth
gan y Wladwriaeth mor frawychus â hanes camweddau'r
Babaeth, ond yna ategwyd traddodiad gan brofiadau
personol anhyfryd, a bu cryn dipyn o elyniaeth felly
at yr Eglwys Wladol.

*** **** **** ***

Er hyn i gyd, gellir gweld pwyslais yr hen Ymneilltuwyr



ar athrawiaeth uniongred (er nad yw'n gwbl uniongred
yn ein barn ni) yn gam diarwybod yn ôl o'r grefydd
wladol ffurfiol at ysbryd Catholigiaeth. Felly hefyd,
pwyslais y Methodistiaid ar edifeirwch a gras achubol
yr Iesu (collwyd pwyslais Wesley ar y Cymun gan Fetho-
distiaid diweddarach). Rhaid i ninnau hefyd dristàu
oherwydd y dirywiad trychinebus diweddar yn y "**Pedwar
Enwad**" : mae'n debyg nad yw nifer yr Ymneilltuwyr
selog gyda'i gilydd yn fwy na theirgwaith nifer y Paby-
ddion gweddol selog. Unwaith eto gan yr Eglwys Anglica-
naidd y mae'r nifer mwyaf o aelodau yng Nghymru.
Er bod y Cymry Cymraeg yn lleiafrif yn eu plith, ac
er bod y Methodistiaid Wesleaidd Cymraeg wedi diflannu
ymron, mae nifer y Methodistiaid Saesneg ac Ymneilltu-
wyrSaesneg eraill wedi tyfu, fel nifer y Pabyddion,
fel y daeth pobl o Loegr.

Fel y lleiha nifer Cristnogion Cymry, cynydda cyfeill-
garwch yn eu plith. Cynhelir gwasanaethau ar y cyd
yn aml, a thrafodaethau athrawiaethol weithiau. Dywe-
dwn innau hefyd fod athrawiaeth pob enwad protestan-
naidd wedi dod yn nes yn gyffredinol at uniongrededd,
ac ail-ddarganfuwyd hefyd werth y Cymun, nid yn
unig ymhlith Anglicaniaid a Methodistiaid, ond hefyd
ymhlith Annibynwyr a Bedyddwyr (yn fwy nag yn ein
plith ni, efallai, gwelir y Cymun fel undod rhwng yr
Iesu a'r **gynulleidfa** i gyd). Mae ein rheolau sy'n gwahardd
cyd-gymuno â Christnogion eraill yn faen tramgwydd
iddynt mewn gwasanaethau ar y cyd). Bu'r ymgais
i uno'r **Pedwar Enwad** yn ffurfiol yn fethiant, ac ar
hyn o bryd, y mae symudiad araf (Y **Cyfamod Cymreig**)
at undod ffurfiol yr **Eglwys yng Nghymru** a'r ddau enwad
Methodistaidd. Mae'r Annibynwyr yn dal yn rhy elyniae-
thus at lywodraeth canolog i geisio undod, ac anodd
i'r Bedyddwyr fyddai uno ag enwadau sy'n bedyddio
plant. Nid oes llawer o gyfathrach ffurfiol rhwng Paby-
ddion ac Ymneilltuwyr ond, yn sicr, mae'r **Eglwys yng
Nghymru** wedi bod yn bont i drosglwyddo syniadau
catholig i'r Ymneilltuwyr. Mae parch at Rufain wedi

yr Ymneilltuwyr, ond erys yr hen amheuon : fod Rhufain yn rhy hoff o gymorth y Wladwriaeth, yn credu eu bod yn berffaith, gan ddirmygu eraill ac yn ymyrru yn y berthynas bersonol rhwng y cristion a Duw. **Efengylwyr** a geir fel lleiafrif selog iawn ym mhob enwad Protestannaidd. Mae'n rhaid i ninnau gofio mai dyna'r un beiau yn union y ceryddodd yr Iesu Bedr o'u herwydd. Mae'n rhaid i'r Protestaniaid hwythau gofio y dewisodd yr Iesu Bedr yn arweinydd Ei Eglwys er gwaethaf y beiau hyn. Terfynaf felly fel y dechreuais, - gyda'r Pab.

Braslun yw'r anerchiad hwn. Sylweddolaf fy hun fy mod wedi symleiddio, wedi gor-symleiddio, ond gobeithiaf nad wyf wedi'ch camarwain yn ddifrifol. Mae digonedd o ddeunydd-astudio Cymraeg i chwi ychwanegu at fy mraslun, a'i gywiro, ac ychydig yn Saesneg. Nid pawb all astudio'n helaeth, ond gall pawb ohonoch weddio drosom ni oll, yn awr ein hargyfwng, dros bob Pabydd, pob Cristion arall, a phob Cymro a giliodd o ffydd ei gyndadau.

**Penarth** — **J.P. Brown**, **Medi, 1983**

&&&&& &&&&& &&&&& &&&&&



## ANERCHIAD PAB IOAN PAUL II

## I BWYLLGOR CYNGHRAIR EGLWYSI DIWYGIEDIG

### Y SWISDIR, Mehefin 1984

Fy mrodyr a chwiorydd yng Nghrist, yr ydym newydd gydweddio. Dyna i mi ras mawr a rannwyd gyda chwi. Wrth adrodd y Pader, yr ydym yn ymgynnull yn enw'r Arglwydd, ac Ysbryd Duw sy'n dysgu i ni ynganu'r gair 'Tad', drwy osod ynom y meddwl oedd yn y Mab (**Pilip. 2,5**). Ysbryd Duw hefyd sy'n ein galluogi i ddweud "brodyr a chwiorydd". Yr wyf yn ddedwydd y gallaf ddyfod i'ch gweld ac yn ddiolchgar am eich gwahoddiad. Nid wyf yn anghofio, Barchedig Gadeirydd, y geiriau mor hael a ysgrifenasoch ataf, dair blynedd yn ôl erbyn hyn, pan fu'n rhaid i mi, am resymau a wyddoch, ohirio fy nhaith i'ch gweld. Moliannaf eich diffuantrwydd, eich teyrngarwch, eich ffydd a'ch ymddiried.. Bu'n dda gennych eu dangos i mi eto, a diolchaf i chwi o waelod fy nghalon.

Oherwydd Gair Duw a thystoliaeth Iesu deuthum i'ch gweld. Trwy undod ysbrydol holl gristnogion y wlad hon, boed i'r Arglwydd roi cymorth i mi i ymateb i'r fath alwad. Y mae Ysbryd Duw wedi rhoi inni undod sylfaenol, drwy Fedydd, undod sy'n arwain, yn naturiol, tuag at "Un Eglwys Duw, weldig, fyd-eang yn y gwirionedd, a anfonwyd i'r byd i'w droi at yr Efengyl, a'i wared felly er gogoniant Duw." (Cylchlythyr **Unitatis Redintegratio**). Yr ydym i gyd yn cydnabod yn ddiolchgar sut y mae'r Arglwydd, drwy nerth yr Ysbryd, yn bendithio'r cydweithio brawdol a'r gweithredoedd cyd-eglwyssig a gyflawnir yn eich gwlad, fel y gallwn ni fod yn barotach fyth i ddwyn tystiolaeth gyffredin i'r cymod a roddwyd inni yn Iesu Grist.

Daeth i'm meddwl eleni gof y gred a ysgogodd dau grefyddwr hynod i lunio hanes y Swisdir. Huldrych Zwingli

yw'r cyntaf ; yr ydych yn dathlu pumed canmlwyddiant ei eni drwy lawer math o gyfarfodydd i gofio'r dyn a'i waith. Jean Calvin yw'r ail, a anwyd 475 mlynedd yn ôl.

Gwelir effaith eu tystoliaeth nid yn unig ym maes diwinyddiaeth a llywodraeth eglwysig, ond hefyd yn y maes diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol. Y mae eu dylanwad yn parhau yn ei nerth a'i hegni mewn llawer man yn y byd Cristnogol, etifeddiaeth a ddaeth atom drwy eu syniadau, a'r dewisiadau moesol arbennig a wnaeth y ddau. Ar y naill law, ni allwn anghofio fod eu gwaith diwygiadol yn aros yn her parhaol inni, gan fod y rhaniad rhwng ein heglwysi'n parhau ; ond, ar y llaw arall, ni all neb wadu ychwaith fod rhwymau cadarn rhyngom oherwydd elfennau eu diwinyddiaeth a'u hysbrydolrwydd. Ni ddylem fod ar wahân am byth, oherwydd gwahaniaeth barn am y digwyddiadau cymhleth, a wnaeth hanes yr amser gynt, a'r gwahaniaethau a erys rhyngom ym maes yr athrawiaethau sy'n sylfaenol i'n cred. Yn enwedig, ni ddylai ein cofion am y digwyddiadau gynt gyfyngu ar ein rhyddid i ymdrechu heddyw i ddileu y difrod a ddaw o'r fath ddigwyddiadau. Elfen allweddol i gymod cydeglwysig yw glanhau' cof. Gwneir hyn drwy gyfaddef yn ddiffuant y beiau cilyddol a'r camgymeriadau, a wnaethpwyd pan oedd y naill yn adweithio yn erbyn y llall, yn hytrach na dilyn gan bawb y llwybr o ffyddlondeb mwy i ewyllys Arglwys yr Eglwys. Efallai y daw'r dydd, a gobeithiad nad yw'n bell, pan all Pabyddion a Phrotestaniaid y Swisdir ysgrifennu gyda'i gilydd hanes y fath gyfnod helbulus a chymheth, ar sail y farn ddi-duedd sy'n ynghlwm â phob cariad brawdol. Wrth wneud hynny, byddwn yn gallu cyrchu ar ffordd y dyfodol, gan ymestyn mewn rhyddid perffaith i ymaflyd yn dynnach yn ewyllys Duw, gan ymddiried y gorffennol i'w drugaredd (**Philip. 3,4**). Y mae Ef yn gofyn gan Ei bobl eu bod a un galon ac un enaid (**Actau, 4,32**), iddynt roddi mawl a gorfoledd unfryd i ogoniant



Ei ras (**Effes. 1,6**).

Yr hyn sy'n cyfrif yn y diwedd yw penderfyniad pob Cristion i edifarhau mewn dull dwfn a pharhaol, a phob cynulleidfa hefyd, gan geisio'n ddibaid adnewyddiad ar sail ffyddlondeb dyfnach. Dyna sy'n angenrheidiol, mae'n amlwg, i sefydlu unrhyw gydweithio ecwmenaidd gan unigolion neu gymdeithasau ("**Unitatis Redintegratio**"). Heblaw hynny, dylai ein holl ymdrechion dynol, rhy ddynol weithiau ysywaeth, gael eu symbylu, cyfeirio, nerthu a phuro'n ddi-baid gan weddi. Dangoswn felly ein bod yn byw yn ôl, y profiad nad oes neb ond Duw sy'n rhoi'r cynnydd (**I Cor 3,6**).

Dywedasoch y gwir i gyd wrth nodi mai trwy weddio dros ein gilydd y byddwn yn dangos fod yr Ysbryd yn byw ynom, ac Ef yn mynnu cymod rhygom. Bydd ein hagwedd at eraill yn newid, pan sylweddolwn sut yr ydym yn cyfaddef, ac yn caru, ein dibynniaeth ara ein hunig Arglwydd.

Mae'n amlwg, wrth gyfarfod ar y tir hwnnw, y bydd holl egni ein bedydd cyffredin yn symbylu yn ein plith y dymuniad brwdfrydig i uno gyda'n gilydd i dderbyn corff a gwaed yr Arglwydd, na allwn gael bywyd ynom hebddynt (**Ioan 5,53**). Yr ydych chwi, Barchedig Gadeirydd, wedi datgan y fath dymuniad, ac yr wyf innau'n dymuno hynny yn ddwys. A dyna brif amcan y trafodaethau a ddechreuwyd gennym, ar raddfa genedlaethol rhwng Eglwys Babyddol Y Swisdir a'ch cynghrair chwi, ac ar raddfa ryng-cenedlaethol rhwng Cymanfa Ddiwygiedig y Byd a'r Ysgrifenyddiaeth dros Undod, tu mewn i'r Gynulleidfa Ffydd ac Athrawiaeth, ynglŷn â Chyngor Eglwysi'r Byd. I'r Eglwys y mae pob Gwasaneth Cymun yn weithred o orfoleddu yn y Ffydd, yn rhagdybio cytundeb llawn ar dir y Ffydd, os bydd yn weithred ddilys o wir ffyddlondeb. Ni allwn fyth arddangos arwydd twyllodrus. Ond y mae ein cydweithio yn anelu at gydthathliad dilys o bob cyfeiriad. Diwerth fyddai cael gwared o'r gofid a ddaw o'n rhaniad, heb geisio dileu

achos y gofid, sef y rhaniad ei hun. Rhodded yr Arglwydd y diwrnod pan wireddir ein dymuniad cyffredin !

Er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod hwnnw, dylem geisio - a mae hyn yn bwysig, - gwneud gyda'n gilydd cymaint ag a allwn yn gydwybodol. Trwy wneud gwirionedd y deuir i'r goleuni (**Ioan 3,21**). Y mae' dra phwysig fod Cristnogion i gyd yn dwyn yr un dystiolaeth gyffredin effeithiol.

Rhaid i ni beidio â cholli amser, canys heddyw, yn y wlad hon, a chwithau gyda Christnogion erail yn rhoi tystiolaeth i Efengyl ein gwaredigaeth, y ceir pobl nad yw Duw yn cyfrif o gwbl yn eu golwg, na Iesu ychwaith, er Ei fod y trysor mwyaf a roes Duw i'r byd. Dengys hyn mor ebrwydd yw'r angen am genhadaeth newydd. Ac eto, mor hyll y llurgyniwyd wyneb y byd a waredwyd gan Iesu Grist, ym mhob man heddyw i ryw raddau, oherwydd rhyfeloedd, newyn, anghyfiawnder a'r ergydion yn erbyn urddas yr unigolyn. Ni pherchir yr enw "Cristion", a ninnau'n peidio, wrth weld cynifer o weithredoedd sy'n gwrthwynebu ewyllys Duw, â chymodi pob peth yng Nghrist er mwyn uno pawb mewn cariad, ac â datgan yn fwyfwy, ynghyd â phob dyn o ewyllys da, urddas pob gŵr a phob gwraig, a'u hawl i fwynhau heddwch a rhyddid. Pwy yw'r Cristion a daerai iddo wneud cymaint ag y gallai eisoes i gyrraedd y nod hon ? Y mae anghenion yn enfawr ac "y mae cariad Crist yn ein cymell ni..." (**II Cor 5,14**). Rhaid i ni beidio â digalonni, ond dyfalbarhau, pawb ohonom, gyda brwdfrydedd, gofal ac ymddiried yng ngras Crist. Nid yw ein gwaith ni ond deunydd crai i'r gwaith a wna'r Arglwydd ac i'r Cariad a dywalltir i'n calonnau trwy'r Ysbryd Glân a roddwyd i ni (**Rhuf 5,5**). Gadewch i mi ddiolch i chwi yn enw'r Arglwydd, a diolch i Dduw hefyd yn eich cwmni, a ninnau'n ymateb i'w alwad i gerdded ffordd anodd ecwmeniaeth. Bydd yr Hwn a ddechreuodd ynom waith da yn gwybod sut i'w orffen (**Pilip I, 6**). Ond ni ddylai ein dymuniad taer i gyrraedd ein nod guddio'r bendithion unigryw a roes yr Ysbryd eisoes i ni ar ein ffordd, - a deil i'w rhoi.



Rhaid inni ddiolch iddo. Bydded iddo roi cymorth i ni gyfrannu at ein gilydd bopeth o werth sy gennym. Bydded iddo roi cymorth hefyd i ni aros yn ffyddlon i'w Air, gan dderbyn felly y gras i gael undod llawn a gwledig.

**DIWEDD**

§§§§§§§§§§§§§§§§

## NODIADAU A NEWYDDION

### "KRISTENION BREIZH"

Cyhoeddir **YMCHWIL** gan y Gymdeithas Lydaweg "**Kristenion Breizh**". Dylid nodi mai ystyr "Cristnogion" yma, fel yn iaith lafar darn helaeth o Ewrob, yw "Catholigion, Pabyddion". Nid yw'r gair yn ymgais i haeru nad Cristnogion mo'r Protestaniaid, megis nid yw "Pabydd" yn air sarhaus yng Nghymru bellach. Y mae aelodau "Kristenion Breizh" yn Babyddion selog ond ceisiant gyfeillgarwch a chyd-ddealltwriaeth â phawb sy'n addoli Duw drwy Ei Fab Iesu Grist, ein Harglwydd, yng nghymdeithas yr Ysbryd Glan.

Sefydlwyd y gymdeithas yn 1974. Y mae'r aaelodau wedi cyd-gyfarfod yn aml yng Nghistinid, yn ymyl Pondivi, yng nghanol Llydaw, a mewn plwyfi eraill wedi hynny, ym Mhlouneour-Menez, yn ymyl Montroulez, yn enwedig, - i gyd-weddio a myfyrio ac, yn anad dim, i addoli Duw drwy'r offeren, a'r cyfan yn yr iaith Lydaweg. Gwyddys y mae sefyllfa'r iaith yng nghefn gwlad Lydaw, ac felly, yn yr eglwysi yno, yn dorcalonnus erbyn heddyw. Y mae nifer fawr o'r to ieuanc, wedi cefnu ar ffydd eu tadau er ryw ugain mlwyddyn. Hydera "Kristenion Breizh" y gall Duw adfer iaith a chrefydd eu gwlad, a gweithiant i hyrwyddo'r adferiad hwnnw.

Y mae' gymdeithas yn credu y gall gwladgarwyr a chrefyddwyr y gwledydd celtaidd oll ddysgu oddi wrth ei gilydd a chydweithio yn eu hymdrechion i adennill eu treftadaeth. Am hynny, y mae'r aelodau wedi teithio'n eang yn y gwledydd eraill (Iwerddon, 1980, Cymru, 1981, Cymru ac Iwerddon, 1982, Cymru, 1983, Cernyw, Cymru ac Iwerddon, 1984, Cernyw a Chymru, 1985, Cernyw a Chymru, 1986). Nid ydynt wedi bod ym Manaw neu'r Alban eto.

Cyhoeddwyd bron daou gant o rifynnau o'u cylchgrawn **"Imbourc'h"** (**"Ymchwil"**), sy'n trafod agweddau diwinyddi-

aeth a bywyd cyfoes yr Eglwys catholig ar y naill law ac, ar y llaw arall, diwylliant a gwleidyddiaeth y gwledydd celtaidd eraill.

*** *** *** *** ***

**Adfywiad y Cylch Catholig**

Sefydlwyd y **Cylch Catholig** yn fwy na 40 mlynydd yn ôl gan Babyddion gymraeg a ddymunai gyd-addoli yn eu hiaith. Dim ond cyfran fach o Babyddion Cymru sy'n siarad Cymraeg, efallai tua mil o bobl, wedi eu gwasgaru drwy ddegau o blwyfi, a llawer iawn ohonynt, rhaid cyfaddef, yn ddigon bodlon i addoli yn Saesneg. Anodd felly yw cynnal gwasanethau cymraeg yn aml yn y plwyfi, ac yr oedd cyfarfodydd y **Cylch** yn gyfle prin i arfer yr iaith mewn cy-addoliad.

Ceisiodd y **Cylch** hefyd ddysgu eu cyd-Babyddion am Gymru, a'u cyd-Gymru am yr Eglwys Gatholig, a llogent babell bob blwyddyn ar Faes yr Eisteddfod lle gwerthid y cylchgrawn blynyddol "**Efrydiau Catholig**" a'i olynydd "**Ysgrifau Catholig**".

Yn y 6O-au, yn bennaf oherwydd y pellteroedd rhwng yr aelodau ac, i raddau, oherwydd peth gwelliant a gafwyd (offerennau Cymraeg yn achlysurol mewn rhai plwyfi ac un gynulleidfa Gymraeg yn y Bontfaen, gwell dealltwriaeth rhwng y Cymry a'r Pabyddīon), aeth nifer y gweithgareddau i lawr a ni chafwyd cyfarfodydd ffurrfiol bellach. Eleni, bu adfywiad, a tho ifanc o Babyddion Cymraeg yn uno â goroeswyr yr hen **Gylch**, mewn cyfarfodydd a mewn enciliad yn Eglwys y Tapr, Aberteifi.

Y mae'r aelodau wedi croesawu'n frwd fwriad "**Kristenion Breizh**" i gyhoeddi cylchgrawn Celtaidd yn Gymraeg, er iddynt ofni na fyddai'n fuddiol i gyhoeddi mwy nag un rhifyn y flwyddyn i ddechrau, gan fod nifer y darllenwyr Pabyddol mor gyfyng. Bydd modd i brynu copīau o'r rhifyn hwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol



nesaf, ym Mhabell y **Cylch.**

**Trydedd Esgobaeth yng Nghymru**

Y mae esgobion Cymru wedi ymgynghori â'u pobl am sefydly trydedd esgobaeth Babyddol yng Nghymru ac am ei ffiniau. Cafwyd cytundeb helaeth ar y cynlluniau ac y mae adroddiad ar ei ffordd i Rufain. Rhagwelir y bydd archesgob talaith eglwysig Cymru yn byw yng Nghaerdydd a'i esgobaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o Forgannwg a Gwent ; bydd esgob yn Wrecsam i esgobaeth fydd yn cynnwys Gwynedd a Chlwyd, ac esgob yn Abertawe i esgobaeth yn cynnwys Gorllewin Morgannwg, Dyfed a Phowys.

Adlewyrchir undod Cymru yn fwyfwy eisoes yng ngweithredu'r Eglwys ; bu ymweliad y Pab yn alweddol, a gobeithir y bydd un o'r tri esgob yn cael gofalaeth arbennig ymhlith y Pabyddion Cymraeg.

§+/§+/§+/§+/§+/§+/§+/

Moulet gant "Keneiled IMBOURC'H"
Ar rener : Y. Ollivier
CPAPP / 50 015